





Adroddiad blynyddol a'r cyfrifon

Cyngor
Meddygol
Cyffredinol



Y Cyngor Meddygol Cyffredinol

Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2025

Adroddiad blynyddol a chyfrifon yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2025

Cyflwynwyd i Senedd y DU yn unol ag adran 52A o
Ddeddf Meddygaeth 1983 fel y'i diwygiwyd gan

Orchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig
(Diwygiadau Amrywiol) 2008 (Rhif OS 1774).

Cyflwynir y cyfrifon i Senedd y DU yn
unol â pharagraff 18 o Atodlen 1 i Ddeddf
Meddygaeth 1983.

Cyngor
Meddygol
Cyffredinol



© Y Cyngor Meddygol Cyffredinol 2026

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, ac eithrio pan nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn: www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn gmc@gmc-uk.org.

ISBN: 978-1-7391680-7-0

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Mae ein hymddiriedolwyr yn cyflwyno'r adroddiad hwn a'r datganiad ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2025.

Maent yn cadarnhau eu bod wedi ystyried canllawiau budd cyhoeddus y Comisiwn Elusennau wrth adolygu ein nodau a'n hamcanion ac wedi ystyried y canllawiau hyn wrth arfer unrhyw bwerau neu ddyletswyddau neu wrth wneud penderfyniad ynghylch pa ganllawiau sy'n berthnasol. Mae'r ymddiriedolwyr yn fodlon ein bod bob amser wedi gweithredu er budd y cyhoedd a bod y gweithgareddau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn a'r cyfrifon yn bodloni'r gofynion budd cyhoeddus yn llawn ac yn cefnogi ein pwrpas elusennol.

Efallai y bydd gan ddarllenwyr ddiddordeb yn y canlynol hefyd:

- [Adroddiadau cenedlaethol](#) (Ein gwaith yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban)
- [Ystadegau ac adroddiadau addasrwydd i ymarfer](#)
- [Adroddiad blynyddol y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol \(MPTS\)](#)
- [Adroddiadau ar gyflwr addysg ac ymarfer meddygol yn y Deyrnas Unedig](#)
- [Canlyniadau'r arolwg hyfforddiant cenedlaethol](#)
- [Adroddiad cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant](#)



Cynnwys

Rhagair	02
Cipolwg ar 2025	04
Ein rôl yn systemau gofal iechyd y Deyrnas Unedig	05
2025 mewn niferoedd	06
Cyflawni ein strategaeth	23
Ein gwaith ledled y Deyrnas Unedig	34
Ein strwythur, trefniadau llywodraethu a rheolaeth	41
Adolygiad ariannol 2025	50
Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg	56
Adroddiad yr archwilyr annibynnol i ymddiriedolwyr y GMC	64
Cyfrifon 2025	69
Gwybodaeth gyfeirio a gweinyddol	104

[Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg ar ein gwefan.](#)

[This publication is available in English on our website.](#)

Rhagair

Mae gwasanaethau iechyd ledled y Deyrnas Unedig yn parhau i weithredu mewn amgylchedd cymhleth a heriol, wedi'i siapio gan y galw cynyddol a phwysau'r gweithlu. Fel rheoleiddiwr proffesiynol, rydym yn gosod safonau ar gyfer gofal diogel i gleifion, yn goruchwyllo addysg a hyfforddiant, yn cynnal ein cofrestrau ac yn ymateb i bryderon am addasrwydd i ymarfer. Cadarnhaodd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ein bod wedi bodloni pob un o'i 18 Safonau Rheoleiddio Da yn 2024–2025. Ochr yn ochr â'n swyddogaethau rheoleiddio craidd, rydym yn gweithio gydag eraill ar y materion sy'n effeithio ar sut mae gofal yn cael ei ddarparu'n ymarferol. Wrth wneud hynny, rydym yn rhoi sicrwydd ac yn cyfrannu ein dadansoddiad a'n safbwynt ar yr heriau sy'n wynebu systemau gofal iechyd y Deyrnas Unedig.

2025 oedd blwyddyn olaf ein strategaeth 2021–25. Dros y cyfnod hwnnw o bum mlynedd, mae cyfansoddiad y gweithlu meddygol wedi amrywio, gan ddod â chyfleoedd a heriau. 2025 hefyd oedd y flwyddyn lawn gyntaf i ni reoleiddio cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia. Mewn cyddestun sy'n esblygu drwy'r amser, rhaid i ni barhau i gyflawni ein cyfrifoldebau rheoleiddio craidd yn effeithiol, gan gydnabod bod cydweithio agos a rhannu gwybodaeth yn bwysicach nag erioed.

Rydym yn gweithio gydag eraill ar draws y pedair gwlad i lywio'r gwaith o gynllunio ar gyfer dyfodol gwasanaethau, gan ddefnyddio ein data ac ar ein hadroddiadau nodedig, sy'n rhoi darlun manwl o gyfansoddiad a llesiant y gweithlu meddygol, yn ogystal â'r ffactorau sy'n effeithio ar recriwtio a chadw staff.

Yn 2025, dangosodd y data pwysigrwydd cefnogi meddygon sydd wedi cymhwyso'n rhyngwladol i adeiladu gyrfaoedd cynaliadwy yng ngwasanaethau iechyd y Deyrnas Unedig, a daethom â'r dystiolaeth

hon i sgysiau â rhanddeiliaid i dynnu sylw at ei goblygiadau ar gyfer cynllunio'r gweithlu.

Wrth i broffil y gweithlu newid, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i flaenoriaethu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar gamau ymarferol i gefnogi meddygon sy'n newydd i ymarfer yn y Deyrnas Unedig.

Mae gweithlu amrywiol yn dod ag ystod ehangach o safbwyntiau a phrofiadau, sy'n cryfhau'r broses o wneud penderfyniadau proffesiynol ac yn helpu systemau iechyd i ymateb i anghenion cleifion. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sicrhau bod amgylcheddau gwaith a hyfforddiant yn gynhwysol, yn gefnogol ac yn deg. Rydym yn cymryd camau ledled y Deyrnas Unedig i fynd i'r afael â gwahaniaethau mewn profiadau meddygon ar draws ymarfer a hyfforddiant proffesiynol, gan gydnabod bod diwylliannau gwaith cefnogol yn hanfodol ar gyfer cadw gweithwyr proffesiynol medrus ac ar gyfer darparu gofal diogel i gleifion.

Wrth i'r gweithlu a gwasanaethau gofal iechyd barhau i esblygu, mae'n bwysig bod y fframwaith ar gyfer rheoleiddio proffesiynol yn addasu i'r newidiadau hyn. Wrth edrych ymlaen at ein strategaeth 2026-30, un flaenoriaeth allweddol yw moderneiddio'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'n gwaith.

Mae llawer o'r fframwaith deddfwriaethol presennol yn dyddio'n ôl dros bedwar degawd ac ni chafodd ei greu gyda systemau gofal iechyd heddiw mewn golwg.

Ochr yn ochr ag ymdrechion i foderneiddio'r fframwaith deddfwriaethol, rydym hefyd yn gweithio i bennu'r cyfeiriad ar gyfer addysg a hyfforddiant meddygol yn y dyfodol.

Wrth i anghenion y boblogaeth newid ac wrth i'r gweithlu drawsnewid, ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod ein safonau'n cadw i fyny. Rhaid strwythuro addysg a datblygiad proffesiynol i roi'r sgiliau a'r wybodaeth i feddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia i fodloni anghenion cynyddol gymhleth cleifion, wrth addasu i ymarfer modern a llwybrau gyrfa.

Bydd ein rhaglen waith yn y maes hwn yn gosod y sylfeini ar gyfer gyrfaedd cynaliadwy mewn gwasanaethau iechyd yn y DU sydd angen sefydlogrwydd a chadw talent. Hwn fydd yr adolygiad llawn cyntaf o'r safonau addysg mewn degawd; ymrwymiad sylweddol a fydd yn cymryd amser. Ein nod yw sicrhau bod y model diwygiedig yn adlewyrchu anghenion cleifion, gweithwyr proffesiynol a'r gwasanaethau iechyd nawr ac yn y blynyddoedd i ddod.

Mewn system dan bwysau sy'n newid yn gyflym, ein rôl yw cynnig eglurder, cysondeb a sicrwydd i'r cyhoedd. Rydym yn gwneud hynny drwy'r safonau rydym yn eu gosod, y ffordd rydym yn ymateb pan

fydd pryderon yn cael eu codi, a thrwy weithio gyda phartneriaid i gefnogi meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia i ddarparu gofal da a diogel i gleifion ledled y Deyrnas Unedig.



Charlie Massey






Charlie Massey
Y Prif Weithredwr



Carrie MacEwen

Yr Athro Fonesig Carrie MacEwen
Cadeirydd

Cipolwg ar 2025



Ein rôl yn systemau gofal iechyd y Deyrnas Unedig

Ni yw rheoleiddiwr annibynnol meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia yn y Deyrnas Unedig.*

Rydym yn gweithio gyda meddygon, cymdeithion meddygol, cymdeithion anaesthesia a chleifion a rhanddeiliaid eraill i gefnogi gofal da a diogel i gleifion. Rydym yn gosod y safonau y mae angen i feddygon, cymdeithion meddygol, cymdeithion anaesthesia a'r rhai sy'n eu hyfforddi eu bodloni, ac yn eu helpu i'w cyrraedd. Os oes pryderon na fydd y safonau hyn yn cael eu bodloni o bosibl, neu y gallai hyder y cyhoedd mewn meddygon, cymdeithion meddygol neu gymdeithion anaesthesia fod mewn perygl, gallwn ymchwilio, a chymryd camau os oes angen.

Sut rydym yn hyrwyddo gofal da a diogel i gleifion

Rydym yn gweithio gyda meddygon, cymdeithion meddygol, chymdeithion anaesthesia a rhanddeiliaid eraill i wneud y canlynol:

- gosod [y safonau](#) gofal cleifion ac ymddygiad proffesiynol y mae angen i feddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia
- rhoi arweiniad a chynghor i helpu meddygon, cymdeithion meddygol, a chymdeithion anaesthesia i ddeall yr hyn a ddisgwylir ganddynt
- sicrhau bod meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia yn cael yr [addysg](#) sydd eu hangen arnynt i ddarparu gofal da a diogel i gleifion
- gwirio pwy sy'n [gymwys i weithio](#) fel meddyg, cydymaith meddygol neu gydymaith anaesthesia yn y Deyrnas Unedig a gweithio gyda nhw a'u cyflogwyr i gadarnhau eu bod yn cadw'n gyfredol ac yn bodloni'r safonau proffesiynol a osodwyd gennym
- ymchwilio i [bryderon](#) fod risg i ddiogelwch cleifion, neu i hyder y cyhoedd mewn meddygon, cymdeithion meddygol neu gymdeithion anaesthesia, a chymryd camau os oes angen.

Ein perfformiad

Bob blwyddyn mae ein perfformiad fel rheoleiddiwr yn cael ei asesu gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA). Caiff ei fesur ar draws ein pedair swyddogaeth graidd: addysg a hyfforddiant; cofrestru; canllawiau a safonau; ac addasrwydd i ymarfer.

Roedd [asesiad blynyddol diweddaraf yr Awdurdod Safonau Proffesiynol](#), a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2025, yn cadarnhau ein bod wedi llwyddo i fodloni'r 18 o'i Safonau Rheoleiddio Da yn 2024–2025. Rydym yn falch ein bod wedi bodloni'r holl safonau a osodwyd gan y PSA ers iddynt gael eu cyflwyno yn 2012. Mae'n golygu ein bod yn perfformio i safon uchel fel rheoleiddiwr, ac mae'n adlewyrchu'r ymrwymïadau a wnawn yn ein gwaith i safonau megis:

- tryloywder
- gwarchod y cyhoedd
- prydlondeb
- cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Safonau cyffredinol

5 allan o 5

Canllawiau a safonau

2 allan o 2

Addysg a hyfforddiant

2 allan o 2

Cofrestru

4 allan o 4

Addasrwydd i ymarfer

5 allan o 5

Cyfanswm y safonau a fodlonwyd

18 allan o 18

* Dechreuon ni reoleiddio cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia ar 13 Rhagfyr 2024.


2025 mewn niferoedd

Y gofrestr


Meddygon ar y gofrestr feddygol yn y Deyrnas Unedig

2024	% newid	2025
393,357	↑ +4.4%	410,566

Twf mewn meddygon cofrestredig 2014-2025




Ble y gwnaethant raddio




Mae'r holl ffigurau ar gyfer 31 Rhagfyr 2025 a 2024 yn y drefn honno, oni nodir yn wahanol. Mae'r holl ganrannau wedi'u talgrynnu i'r degfed ran agosaf o ganran: mewn rhai achosion mae'n bosibl na fydd y niferoedd yn cyfateb i 100% yn union. Ewch i [GMC Data Explorer](#) i ddysgu mwy am addysg ac ymarfer meddygon yn y Deyrnas Unedig.

Meddygon ar y gofrestr yn ôl lleoliad*



Meddygon ar y gofrestr yn ôl ethnigrwydd




* Mae lleoliad deilliadig y meddygon cofrestredig yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r hierarchaeth ganlynol:

1. lle maen nhw'n gweithio ar sail data hanes ymarfer y GIG
2. eu lleoliad hyfforddi yn seiliedig ar yr arolwg hyfforddiant Cenedlaethol
3. lleoliad eu corff dynodedig
4. eu cyfeiriad cofrestredig.

Mae meddygon cofrestredig sydd wedi eu lleoli yn Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw wedi eu cynnwys yn y ffigurau sy'n cyfeirio at Loegr.

Meddygon ar y gofrestr yn ôl rhywedd*

● Dynion ● Merched



Cyfanswm y meddygon ar y Gofrestr Meddygon Teulu

82,415

I fyny

2.7% ers 2024 (80,237) ↑

Cyfanswm y meddygon ar y Gofrestr Arbenigwyr

115,587

I fyny

3.2% ers 2024 (112,038) ↑

* Mae'r data hwn yn cynnwys pob meddyg ar y gofrestr, gyda thrwydded i ymarfer neu heb drwydded i ymarfer. Yn 2025, fe wnaethom sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau ar y gofrestr ar gyfer meddygon sydd â thrwydded i ymarfer. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein [harchif newyddion](#).

Yn 2025, fe wnaethom ganiatáu:

24,812

cais am gofnod cyntaf
ar y gofrestr.

Mae hynny'n

13.1%↓

o ostyngiad ers 2024 (28,564).

9,829

(39.6%) gan feddygon
â PMQ yn y Deyrnas Unedig.

14,983

(60.4%) gan feddygon â
chymhwyster o weddill y
byd.

4,023

cais i ymuno â'r
Gofrestr Meddygon Teulu.

Mae hynny'n

3.9%↓

o ostyngiad ers 2024 (4,188).

1,986

(49.4%) gan feddygon
â PMQ yn y Deyrnas Unedig.

2,037

(50.6%) gan feddygon â
chymhwyster o weddill y
byd.

5,880

cais i ymuno â'r
Gofrestr Arbenigol.

Mae hynny'n

6.6%↑

o gynydd ers 2024 (5,516).

3,444

(58.6%) gan feddygon
â PMQ yn y Deyrnas Unedig.

2,436

(41.4%) gan feddygon â
chymhwyster o weddill y
byd.

Y Bwrdd Asesiadau Proffesiynol ac Ieithyddol (PLAB)

Fel arfer mae'n rhaid i feddygon sy'n graddio y tu allan i'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir sefyll prawf y Bwrdd Asesiadau Proffesiynol ac Ieithyddol er mwyn ymuno â chofrestr feddygol* y Deyrnas Unedig. Mae'r prawf yn cael ei wneud mewn dwy ran (PLAB 1, sy'n cael ei gyflwyno mewn canolfannau asesu ledled y byd, a PLAB 2, sy'n cael ei gynnal yn un o'n canolfannau profi ym Manceinion).

PLAB 1

13,691

o ymgeiswyr wedi sefyll PLAB 1 yn 2025, sef 35% o ostyngiad ers 2024 (21,058).

8,513 (62.2%) wedi pasio'r arholiad.

PLAB 2


14,315

o ymgeiswyr wedi sefyll PLAB 2 yn 2025, sef 26% o ostyngiad ers 2024 (19,346).

8,564 (59.8%) wedi pasio'r arholiad.

* Mae'r eithriadau i hyn yn cynnwys graddedigion rhyngwladol sy'n ymuno â'r gofrestr yn seiliedig ar gael eu noddi gan sefydliadau gofal iechyd, neu'n seiliedig ar gymwysterau ôl-raddedig. Yn y ddau achos hyn, mae'n dal yn rhaid i feddygon ddarparu tystiolaeth o'u cymhwysedd a'u sgiliau. I gael rhagor o wybodaeth am y gwahanol lwybrau i ymuno â'r gofrestr, gweler www.gmc-uk.org/registration-and-licensing/join-the-register/before-you-apply/evidence-to-support-your-application.


Cymdeithion meddygol ar y gofrestr




Cymdeithion meddygol ar y gofrestr yn ôl rhywedd




Cymdeithion meddygol ar y gofrestr yn ôl lleoliad



Cymdeithion meddygol ar y gofrestr yn ôl ethnigrwydd




Cymdeithion anaesthesia ar y gofrestr




Cymdeithion anaesthesia ar y gofrestr yn ôl rhywedd



Cymdeithion anaesthesia ar y gofrestr yn ôl lleoliad*



Cymdeithion anaesthesia ar y gofrestr yn ôl ethnigrwydd



* Nid oedd cymdeithion anaesthesia ar y gofrestr yng Ngogledd Iwerddon yn 2025.

Gosod a chynnal safonau

Ailddilysu

Rhaid i bob meddyg trwyddedig sy'n ymarfer meddygaeth yn y Deyrnas Unedig brofi ei fod yn bodloni ein safonau bob pum mlynedd drwy broses o'r enw ailddilysu. Mae ailddilysu yn cefnogi meddygon i ddatblygu eu hymarfer, yn sbarduno gwelliannau mewn llywodraethiant clinigol ac yn rhoi hyder i gleifion bod meddygon yn addas i ymarfer.

Yn 2025, cawsom

43,824

o argymhellion ynghylch ailddilysu.*

37,177

o feddygon wedi eu hailddilysu yn 2025.

Fe wnaethom benderfyniadau ar

99%

o'r argymhellion a gawsom o fewn 5 diwrnod gwaith, gan ragori ar ein targed o 95%.

5,648

Fe wnaethom gymeradwyo gohirio dyddiadau cyflwyno ailddilysu ar gyfer 5,648 o feddygon.

1,319


Fe wnaethom dynnu trwyddedau 1,319 o feddygon oddi ar ein cofrestr oherwydd eu bod wedi methu ailddilysu.†

* Gall meddygon dderbyn mwy nag un argymhelliad.


† Os nad yw meddyg yn bodloni gofynion ailddilysu, yn darparu gwybodaeth dwyllodrus neu'n methu â darparu tystiolaeth y gofynnir amdani'n rhesymol, gallwn dynnu eu trwydded yn ôl yn gyfreithiol. Mae'r broses hon yn wahanol i'r broses o gael eich tynnu oddi ar y gofrestr, er enghraifft, yn dilyn gwrandawriad yr MPTS.

Allgymorth


Darparodd ein timau allgymorth hyfforddiant ar ein safonau i:



Atebodd ein tîm ymholiadau safonau:



Mae ein timau allgymorth hefyd yn cynnal gweithdai sydd â'r nod o helpu meddygon sy'n newydd i ymarfer yn y DU i addasu i weithio yn systemau gofal iechyd y DU.



Goruchwylio addysg a hyfforddiant

Rydym yn rheoleiddio pob cam o addysg a hyfforddiant israddedig ac ôl-raddedig meddygon, gan osod safonau a chyflawni gwaith sicrhau ansawdd (QA) i wneud yn siŵr bod y rhain yn cael eu cynnal. O 2025 ymlaen, fel rhan o'n dyletswydd statudol, rydym hefyd yn gosod safonau ar gyfer darparwyr cyrsiau cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia, ac rydym yn gwirio bod y rhain yn cael eu bodloni'n rheolaidd drwy ein prosesau sicrhau ansawdd rhagweithiol ac adweithiol.

Drwy ein proses sicrhau ansawdd ragweithiol, rydym yn gwneud yn siŵr bod ysgolion meddygol, sefydliadau hyfforddi ôl-raddedigion, a darparwyr cyrsiau cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia yn parhau i fodloni ein safonau. Rydym yn penderfynu pa sefydliadau sy'n gallu dyfarnu cymhwyster meddygol sylfaenol yn y Deyrnas Unedig neu gymhwyster cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia yn y Deyrnas Unedig.

Mae ein prosesau sicrhau ansawdd adweithiol yn hyrwyddo ac yn annog rheolaeth leol o ran pryderon am ansawdd a diogelwch addysg a hyfforddiant, lle gellir mynegi a monitro materion sy'n dod i'r amlwg. Os nad yw'r materion yn cael eu datrys neu'n gwaethygu, gellir uwchgyfeirio achosion sy'n ymwneud â hyfforddiant meddygol ôl-raddedig i'n proses fonitro uwch, a ddefnyddiwn i fynd i'r afael â phryderon difrifol lle mae angen cymorth ychwanegol.

Yn 2025, fe wnaethom gynnal

221

o ymweliadau sicrhau
ansawdd addysg

Mae hynny'n

5.7% 

o gynnydd ers
2024 (209).*

Roedd **171** o'r ymweliadau yn **Lloegr**.

Roedd **13** o'r ymweliadau yng **Ngogledd Iwerddon**.

Roedd **18** o'r ymweliadau yn yr **Alban**.

Roedd **19** o'r ymweliadau yng **Nghymru**.

Roedd **191** yn **ymweliadau Sicrhau Ansawdd ag ysgolion meddygol, neu amgylcheddau clinigol** lle mae addysg a hyfforddiant meddygol yn digwydd.

Roedd **30** yn **ymweliadau monitro uwch**, yn hyrwyddo datrys pryderon am hyfforddiant ôl-raddedig yn lleol.

O'n hymweliadau Sicrhau Ansawdd, gwelsom:

19 o feysydd **arfer da neu'n gweithio'n dda**.

64 o feysydd lle **bodlonwyd ein safonau**, ond lle **nodwyd gwelliannau** y gellid eu gwneud.

14 maes y mae **angen gwella**.†

O ganlyniad i'n gweithgareddau sicrhau ansawdd adweithiol:

4 achos yn ymwneud ag addysg ôl-raddedig **wedi eu huwchgyfeirio i'n proses fonitro uwch**.‡

4 achos a gafodd eu huwchgyfeirio o'r blaen wedi eu datrys.§

* Rydym bob amser yn cynnal o leiaf un gweithgaredd sicrhau ansawdd addysg ym mhob sefydliad bob blwyddyn. Efallai y byddwn hefyd yn cynnal gweithgareddau dilynol ar sail argymhellion sefydliadau neu ein canfyddiadau. Caiff y rhain eu cyfrif yn ein cyfansymiau. Mae hyn yn anochel yn arwain at amrywiad ystadegol yn nifer y gweithgareddau sicrhau ansawdd yr ydym yn eu cyflawni o un flwyddyn i'r llall.

† Nid yw pob ymweliad sicrhau ansawdd yn arwain at ganfyddiadau penodol fel y rhai a restrir yma - mewn rhai achosion nid oes dim o bwys yn cael ei ganfod, gan nad oes dim wedi newid ers yr ymweliad blaenorol, neu nid oes dim wedi ei ganfod sy'n haeddu sylw penodol (h.y. mae addysg a hyfforddiant yn gweithio yn ôl y disgwyl). Yma, rydym ond yn adrodd ar nifer y meysydd y canfuwyd eu bod yn enghreifftiau penodol o arfer da, hynny yw, yn gweithio'n dda, neu feysydd sydd angen eu gwella neu lle argymhellir gwelliant. Felly, ni fydd y ffigurau ar y canfyddiadau a adroddir yma o reidrwydd yn cyfateb i gyfanswm yr ymweliadau a gynhaliwyd gennym.

‡ Fel arfer, mae achosion monitro uwch yn ymwneud ag uned neu adran benodol mewn darparwr addysg lleol (LEP). Gall monitro ymwneud â mwy nag un pryder yn yr un Darparwr Addysg Lleol, a gall pryder gaiff ei fonitro effeithio ar fwy nag un uned, neu ymddiriedolaeth neu fwrdd iechyd cyfan.

§ Fel gydag ymweliadau sicrhau ansawdd, nid yw pob ymweliad monitro uwch yn arwain at uwchgyfeirio neu isgyfeirio - mewn rhai achosion mae'r ymweliadau'n canolbwyntio ar fonitro cynnydd tuag at ddatrys materion a oedd wedi cael eu huwchgyfeirio o'r blaen. Felly, ni fydd cyfanswm yr ymweliadau o reidrwydd yn cyfateb i nifer yr achosion newydd neu agored nac achosion y mae eu statws wedi newid yn ystod y flwyddyn.

Nifer yr ymweliadau sicrhau ansawdd â darparwyr addysg cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia a gynhaliwyd yn 2025

Yn 2025 gwnaethom gynnal

54

ymweliad sicrhau ansawdd cymdeithion meddygol / cymdeithion anaesthesia.

Roedd **49** o'r ymweliadau yn Lloegr

Roedd **2** o'r ymweliadau yng Ngogledd Iwerddon

Roedd **2** o'r ymweliadau yn yr Alban

Roedd **1** o'r ymweliadau yng Nghymru

O'n hymweliadau sicrhau ansawdd â darparwyr addysg cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia, gwelsom:

159 o feysydd lle roedd ein safonau wedi'u bodloni, ond lle nodwyd gwelliannau y gellid eu gwneud.
7 maes y mae angen eu gwella.

Cefnogi'r bobl rydym yn eu gwasanaethu

Gwasanaeth Cyswllt Addasrwydd i Ymarfer

Yn 2025, cynhaliodd ein gwasanaeth cyswllt addasrwydd i ymarfer **361** o gyfarfodydd gyda phobl a oedd wedi mynegi pryder i ni.

Roedd **94%** o'r rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfodydd yn fodlon neu'n fodlon iawn a'u profiad o'r cyfarfod.

Roedd **92%** o'r rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfodydd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod staff yn dangos empathi tuag at eu sefyllfa.

Roedd **92%** o'r rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfodydd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn fodlon bod eu pryderon wedi cael eu deall yn ystod y cyfarfod.

Roedd **92%** o'r rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfodydd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y cyfarfodydd yn eu helpu i ddeall pa gamau y gallai'r GMC eu cymryd.

Canolfan Gyswllt

Atebodd ein canolfan gyswllt

99,108

galwad a

105,827

neges e-bost neu lythyrau.

Roedd

74.2%

o'r galwadau a'r negeseuon e-bost a gafwyd gan gofrestreion, ac roedd

25.8%

gan aelodau o'r cyhoedd ac eraill.

Roedd y ganolfan gyswllt hefyd wedi delio â

57,542

sesiwn sgwrsio ar y we.



Yn 2025, cawsom

1,366

o **gwynion** am ein gwasanaethau.

Mae hynny'n

9.7% ↓

o ostyngiad ers 2024 (1,512).

Ymchwilio i bryderon a gweithredu arnynt

Un o'n prif rolau fel rheoleiddiwr yw ymchwilio a gweithredu ar bryderon a fynegwyd i ni am ein hunigolion cofrestredig. Ar gyfer meddygon, rydym yn rhannu'r broses hon yn dri cham, sef 'Brysbennu', 'Ymchwiliad' a 'Phenderfyniad'. Rydym fel arfer yn cyrraedd 'Penderfyniad' o fewn chwe mis, ond mae hyd pob cam yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau ac felly, mewn rhai achosion, gall y broses gymryd nifer o flynyddoedd. Mae rhagor o wybodaeth am y broses hon ar gael drwy ein tudalennau gwe [Sut rydym yn ymchwilio i bryderon am feddygon](#), ac am ein proses ar gyfer cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia drwy ein tudalennau gwe [Sut rydym yn ymchwilio i bryderon am gymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia](#).


Allwedd:

- Cam brysbennu
- Cam ymchwiliad
- Cam penderfynu ar achos
- Gorchmynion interim

Mynegir pryder i ni (fel arfer gan aelod o'r cyhoedd, gweithiwr gofal iechyd proffesiynol neu gorff cyhoeddus arall).

Brysbennu

Rydym yn ystyried yr wybodaeth sydd ar gael ac yn penderfynu a yw'r pryder yn cyrraedd y trothwy ar gyfer ymchwiliad. Ni roddir gwybod i'r meddyg na'i gyflogwr ar hyn o bryd.



Yn parhau o'r dudalen flaenorol

Gorchmynion interim

Os byddwn yn credu ar unrhyw adeg y dylid cyfyngu ar ymarfer y meddyg tra byddwn yn ymchwilio, gallwn gyfeirio'r meddyg at wrandawriad **tribiwnlys gorchmynion interim**.

Ymchwiliad

Rydym yn agor **ymchwiliad llawn**.

Rydym yn **casglu rhagor o dystiolaeth** (ee cofnodion meddygol, datganiadau tystion, adroddiadau arbenigwyr).

Rydym yn rhannu'r dystiolaeth hon â'r meddyg ac yn gofyn am ei sylwadau.

Penderfynu ar achos

Bydd dau archwilydd achos yn **adolygu'r holl dystiolaeth** ac yn **gwneud penderfyniad**.

Fel arfer mae'n cymryd 3 wythnos.

Os oes ymchwiliad trydydd parti yn mynd rhagddo (ee gan yr heddlu neu'r crwner) byddwn yn aros am y canlyniadau, oni bai ein bod yn nodi risg uniongyrchol i ddiogelwch y cyhoedd.

Weithiau mae'r canlyniadau hynny'n golygu y byddwn yn **cau'r achos heb gymryd unrhyw gamau**, heb agor ymchwiliad llawn.

Nid oes dystiolaeth fod rhywbeth yn amharu ar addasrwydd meddyg i ymarfer.

Rydym yn cau'r achos **heb gymryd unrhyw gamau**.

Rydym yn gweld **achos amlwg o dorri ein safonau**, ond rydym yn penderfynu bod y meddyg yn addas i ymarfer heb gyfyngiad.

Efallai y byddwn yn rhoi **cyngor i'r meddyg**.

Rydym yn canfod bod ymddygiad neu berfformiad y meddyg yn **is o lawer na'r safonau a ddisgwyllir**, ond yn penderfynu **nad yw cyfyngu ar ei hymarfer yn angenrheidiol er diogelwch y cyhoedd**, nac er mwyn cynnal hyder y cyhoedd mewn meddygon.

Rydym yn rhoi **rhybudd i'r meddyg**.

Rydym yn canfod bod ymddygiad neu berfformiad y meddyg yn **is o lawer na'r safonau a ddisgwyllir**. Rydym yn penderfynu bod newid ei ymarfer yn debygol o **wella diogelwch y cyhoedd**, neu o **gynnal hyder y cyhoedd mewn meddygon**.

Rydym yn **cytuno ar ymgynghoriadau**: gwneir cytundeb rhyngom ni a'r meddyg ynghylch ei ymarfer yn y dyfodol (ee ymrwymo i ailhyfforddi, neu roi'r gorau i weithredoedd neu ymddygiadau penodol).

Mae dystiolaeth yn awgrymu **methiant difrifol** i gyrraedd safonau sydd, os profir hynny, yn golygu bod amhariad ar addasrwydd meddyg i ymarfer, a bod **risg i ddiogelwch y cyhoedd**, neu **hyder y cyhoedd mewn meddygon**.

Rydym yn cyfeirio'r achos at **wrandawriad tribiwnlys ymarferwyr meddygol annibynnol (MPTS)**.

Pryderon a fynegwyd am feddygon*

Rhoddwyd gwybod i ni am
o bryderon, yn 2025.

13,465



Mae hyn yn **25%** o gynnydd
ers 2024 (10,769 o bryderon).

Canran y pryderon a fynegwyd gan y cyhoedd

80%

2025

76.9%

2024

O'r **13,465** pryder a fynegwyd i ni yn 2025, cafodd **80%** eu mynegi gan gleifion neu aelodau o'r cyhoedd. Mae hynny'n uwch nag yn 2024 (76.9%).

Ymchwiliadau

Nid yw'r holl bryderon a godwyd gyda ni yn cyrraedd ein trothwy ar gyfer ymchwiliad. Weithiau, mae'n well delio â phryder ar lefel leol neu drwy gael sgwrs â'r meddyg, neu dylid ei ddwyn gerbron sefydliad arall. Dim ond pan fyddwn ni'n canfod y gallai fod risg i ddiogelwch cleifion neu i hyder y cyhoedd mewn meddygon y byddwn ni'n gweithredu.

Roedd **997**
(7%) o'r pryderon a
gawsom yn 2025 wedi
cyrraedd ein **trothwy**
statudol ar gyfer
ymchwiliad



Mae hynny'n is nag
yn 2024 (**8.4%**).


Roedd **223**
(22.4%) o'r rhain yn
cyfeirio at bryderon a
godwyd gan **aelodau'r**
cyhoedd.



Mae hynny'n is nag
yn 2024 (**26.2%**).


* Yn 2025, nid oedd nifer y pryderon a godwyd ynghylch cymdeithion meddygol/cymdeithion anaesthesia yn ddigon uchel i gadw'r data'n ddienw pan adroddwyd amdanynt. Bydd pryderon a chanlyniadau cymdeithion meddygol/cymdeithion anaesthesia yn y dyfodol yn cael eu hadolygu pan fydd rhagor o ddata ar gael.

Canlyniadau*



* Canlyniadau ymchwiliadau a ddaeth i ben yn 2025.

Canlyniadau tribiwnlysoedd yr MPTS*



Os nad ydym yn cytuno â'r penderfyniadau a wneir gan dribiwnlys, gallwn apelio yn eu herbyn.



Yn 2025, fe wnaethom **10** apêl, o'i gymharu â **4** yn 2024. Roedd **3** apêl yn llwyddiannus, **1** apêl yn aflwyddiannus ac **6** apêl heb eu datrys ar 31 Rhagfyr 2025.

* Mae'r ffigurau hyn yn cyfeirio at dribiwnlysoedd ar gyfer meddygon yn unig. Nid oedd unrhyw dribiwnlysoedd ar gyfer cymdeithion meddygol na chymdeithion anaesthesia yn 2025.

Cyflawni ein strategaeth

Cafodd ein gwaith yn 2025 ei siapio gan ein strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2021-25, a oedd yn nodi pedair thema i'n helpu i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer 2030.

Ers hynny, rydym wedi lansio strategaeth gorfforaethol newydd, ar gyfer 2026 i 2030. Mae ein [strategaeth 2026-30](#), mewn sawl ffordd, yn barhad o'n strategaeth 2021-25, oherwydd mae ein gweledigaeth yn aros yr un fath.

Yn yr adroddiad hwn rydym yn myfyrto ar y cynnydd a wnaethom yn 2025 yn erbyn ein strategaeth 2021-25. Bydd ein cynnydd gyda'n strategaeth 2026-30 yn cael ei adrodd yn ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2026.

Ein gweledigaeth ar gyfer 2030

Byddwn yn rheoleiddiwr effeithiol, perthnasol a thosturiol ar gyfer meddygon, cymdeithion meddygol, cymdeithion anaesthesia, cleifion a'r cyhoedd, ac fel cyflogwr.

Themâu strategol 2021-25



Cynnydd yn 2025

Mae ein strategaeth 2021-25 wedi ein harwain drwy gyfnodau heriol, gan gynnwys effeithiau'r pandemig, ac wedi ein gweld yn dod yn rheoleiddiwr amlbroffesiwn. Mae wedi ein galluogi ni i addasu fel rheoleiddiwr i gefnogi ein systemau gofal iechyd wrth iddynt wynebu pwysau eithriadol. Rhoddodd yr hyn a ddysgwyd o asesiad hanner ffordd, a gynhaliwyd gennym yn 2023, cipolwg gwerthfawr i ni a gyfrannodd at y gwaith datblygu ar gyfer ein strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2026-30.

Isod mae crynodeb o'r prif weithgareddau rydym wedi ymgymryd â nhw yn ystod 2025 i gefnogi ein nodau strategol ar gyfer 2021-25.

Rheoleiddio cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia

Ar 13 Rhagfyr 2024, fe wnaethom ddechrau rheoleiddio cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia, gan ein gwneud ni'n rheoleiddiwr amlbroffesiwn am y tro cyntaf ers y 1950au.* Roedd hyn yn dilyn cais yn 2019 gan Lywodraeth y DU, gyda chefnogaeth y gweinyddiaethau datganoledig, i ni fod yn rheoleiddiwr cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia, a phasio deddfwriaeth ddechrau 2024 i alluogi hyn.

Er nad yw cofrestru gyda ni yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia tan fis Rhagfyr 2026,[†] rydym wedi annog y gweithwyr proffesiynol hyn i gofrestru cyn gynted ag y gallant.

Yn ystod chwarter cyntaf 2025, fe wnaethom anfon gwahoddiadau cofrestru personol at holl aelodau cofrestrau gwirfoddol o gymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia a oedd eisoes yn bodoli, a dilyn y rhain gyda nodiadau atgoffa ym mis Mehefin. Fe wnaethom hefyd anfon e-bost uniongyrchol at bob cydymaith meddygol a chydymaith anaesthesia a gwblhaodd eu cymhwyster ac a ddaeth yn gymwys i gofrestru yn ystod y flwyddyn. Erbyn mis Rhagfyr 2025, roeddem wedi cofrestru 3,909 o gymdeithion meddygol a 180 o gymdeithion anaesthesia.

Ar ôl i'n tîm sicrhau ansawdd addysg ymgysylltu â darparwyr cyrsiau cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia cyn i'r rheoleiddio ddechrau, ym mis Ebrill 2025 fe wnaethom gymeradwyo 33 o gyrsiau cymdeithion meddygol a 3 chwrs cymdeithion anaesthesia yn ffurfiol fel rhai sy'n bodloni ein safonau.[‡]

Adolygiad Leng

Ym mis Tachwedd 2024, comisiynodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol adolygiad annibynnol o'r proffesiynau cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia yn Lloegr. Diben yr adolygiad, dan arweiniad yr Athro Gillian Leng, oedd casglu tystiolaeth i ystyried diogelwch y rolau a'u cyfraniad at dimau gofal iechyd amlddisgyblaethol.

Cyhoeddodd yr Athro Leng ei [chanfyddiadau a'i hargymhellion](#) ar 16 Gorffennaf 2025.

Gwnaeth 18 o argymhellion i gyd, wyth yn ymwneud â chymdeithion meddygol, chwech yn ymwneud â chymdeithion anaesthesia, a phedwar yn ymwneud â'r system ehangach.

* Roedd y GMC yn gyfrifol am y gofrestr deintyddion rhwng 1878 a 1921. Cymerodd y Bwrdd Deintyddol yr awenau o ran cynnal y Gofrestr Deintyddion ym 1921, ond cadwyd achosion disgyblu a phwerau archwilio arholiadau gan y GMC tan 1956 pan gawsant eu trosglwyddo i'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol newydd.

† Mae hyn yn amodol ar newidiadau posibl a allai ddigwydd yn sgil deddfwriaeth sy'n destun ymgynghoriad adeg ei chyhoeddi.

‡ Ym mis Ebrill 2025, fe wnaethom osod amodau ar gymeradwyo pedwar cwrs cymdeithion meddygol, o'r cyfanswm o 33 a gymeradwywyd gennym (cafodd 29 o gyrsiau cymdeithion meddygol eu cymeradwyo heb amodau). Roedd cael amod ar eu cymeradwyaeth yn golygu bod yn rhaid i'r pedwar cwrs cydymaith meddygol hyn wneud gwelliannau i'w rhaglenni addysgol er mwyn i ni allu bod yn dawl ein meddwl bod eu myfyrwyr yn cael eu hyfforddi i'r safon rydym yn disgwyl ei chynnal er mwyn cynnal diogelwch cleifion. Mae pob un o'r pedwar cwrs hyn wedi darparu tystiolaeth ers hynny i'n sicrhau bod safonau'n cael eu bodloni, felly fe wnaethom ddileu'r amodau ar gymeradwyo tri chwrs yn llwyr, a chymeradwyo un cwrs sy'n dal i fod ag amodau, ym mis Rhagfyr 2025.

Mae un o'r argymhellion hyn ar gyfer y GMC, ac mae'n galw arnom i wahaniaethu'n gliriach rhwng ein gofynion rheoleiddio ar gyfer gwahanol broffesiynau, gan nodi pum cam y dylem eu cymryd er mwyn cyflawni hyn.

Ers hynny, rydym wedi bod yn ystyried yr argymhellion yn fanwl a'r hyn y maent yn ei olygu i ni ac eraill ar draws y system, ac rydym eisoes wedi dechrau gweithio tuag at eu rhoi ar waith. Rydym yn barod i ymuno â sgysiau ar lefel system i gefnogi'r gwaith o gydlynw'r camau nesaf.

Mesur allweddol y mae'r Athro Leng wedi'i argymhell yw newid teitlau'r cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia i 'gynorthwydd meddyg' a 'chynorthwydd meddyg mewn anaesthesia'. Rydym yn bwriadu rhoi'r newid hwn ar waith ar ôl i'r teitlau a nodir yn y gyfraith gael eu diweddarau. Tan hynny, byddwn yn parhau i ddefnyddio'r teitlau presennol a'r byrfoddau perthnasol, yn ein holl ddogfennau a chyfathrebiadau.

Diwygio rheoleiddio

Ar 12 Mai 2025, cadarnhaodd Llywodraeth y DU ei hymrwymiad i flaenoriaethu diwygio rheoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Rydym wedi eirioli dros ddiwygio ers tro byd, ac wedi croesawu'r cyhoeddiad hwn fel cam sylweddol tuag at greu fframwaith sy'n gwasanaethu cleifion a'r gweithwyr proffesiynol rydym yn eu rheoleiddio yn well.

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol, y mae rhannau ohoni bellach dros 40 oed, yn rhy gymhleth ac anhyblyg. Bydd ei foderneiddio yn rhoi fframwaith ymatebol i ni sy'n hybu hyder y cyhoedd, yn cefnogi meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia yn well, ac yn ein helpu i ymatebol yn gyflymach ac yn fwy hyblyg i newidiadau yn system gofal iechyd y Deyrnas Unedig.

Mae diwygio rheoleiddio yn broses gymhleth a

thechnegol, a bydd yn cymryd amser i ddrafftio, craffu ar a gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd. Fodd bynnag, drwy barhau i gydweithio â phartneriaid allweddol, rydym yn hyderus y gallwn ddarparu model rheoleiddio sy'n gwella diogelwch cleifion ac yn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd mewn meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia.

Ar hyn o bryd mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar foderneiddio'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer meddygon, gyda gwaith eisoes yn mynd rhagddo i ddrafftio deddfwriaeth a fydd yn disodli'r Ddeddf Meddygaeth (1983). Yn dilyn hynny, bydd diweddariadau'n cael eu gwneud i'r ddeddfwriaeth sy'n sail i waith rheoleiddwyr proffesiynol eraill ym maes gofal iechyd, megis y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gydag Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU drwy gydol 2025, wrth iddynt ddatblygu'r ddeddfwriaeth newydd: Y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio'n fewnol i baratoi ar gyfer sut rydym yn mynd ati i drosi - er enghraifft, sut mae trosglwyddo achosion o'r fframwaith deddfwriaethol presennol i'r un newydd, neu sut byddwn yn symud data allweddol, megis cofnodion cofrestru. Rydym wedi rhannu ein gofynion â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn gallu eu hadlewyrchu yn y darpariaethau trosiannol a fydd yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth newydd. Rydym hefyd wedi darparu adborth ar sawl fersiwn o Orchymyn y GMC yn ystod 2025, ac wedi paratoi i adolygu'r fersiwn sy'n destun ymgynghoriad.

Ochr yn ochr â'r gwaith deddfwriaethol, rydym wedi bod yn cynnwys cynulleidfaoedd allweddol yn y gwaith o lunio dyfodol diwygio rheoleiddio. Yn benodol, rydym wedi parhau i ymgysylltu â phanel sy'n cynnwys aelodau o'r cyhoedd, meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia, i archwilio a phrofi pynciau penodol a fydd yn dod yn

rhan o'r fframwaith deddfwriaethol newydd. Mae'r panel yn cael ei gynnull a'i reoli drwy contractwr trydydd parti, ac mae wedi cael ei ymgynghori ag ef ar amrywiaeth o bynciau hyd yn hyn – gan gynnwys, yn ystod 2025, ar ein rôl mewn perthynas â sicrhau ansawdd addysg. Rydym yn defnyddio gwybodaeth y panel i'n helpu i sicrhau bod unrhyw newidiadau sy'n cael eu cynllunio a'u rhoi ar waith ar hyn o bryd yn glir, yn deg ac yn hawdd eu deall.

Fe wnaethom gyhoeddi [gwerthusiad o'r gwaith ymgysylltu](#) hwn ar ein gwefan ym mis Tachwedd 2025. Gan fod y dull hwn wedi bod mor werthfawr, rydym wedi comisiynu cam pellach o'r gwaith hwn, er mwyn i ni allu parhau i glywed yn uniongyrchol gan y grwpiau hyn am bynciau penodol (yn ogystal ag ymgynghoriad ffurfiol), cyn i Orchymyn y GMC gael ei gyflwyno.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar ein fframwaith rheoleiddio arfaethedig ar gyfer y dyfodol rhwng 24 Mawrth a 23 Mehefin 2026, ac, yn amodol ar amser seneddol, mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn disgwyl gosod y ddeddfwriaeth gerbron Senedd y DU a Senedd yr Alban cyn diwedd y flwyddyn.

Dyfodol addysg a datblygiad gyrfa (Future Ed)

Mae gwasanaethau iechyd ledled y Deyrnas Unedig yn newid, wedi'u siapio gan arloesedd, anghenion cleifion sy'n esblygu a gweithlu mwy amrywiol. Er mwyn sicrhau bod addysg feddygol ar flaen y gad, rydym yn cynnal adolygiad mawr o'n safonau, ein canlyniadau a'n canllawiau ynglŷn â'r maes hwn, gyda'r nod o gyflwyno fframwaith addysg wedi'i ddiweddarau erbyn 2030.

Mae ein gwaith ar y rhaglen Future Ed wedi'i drefnu o amgylch tri phrif faes polisi: asesu, datblygu gyrfa, ac adolygu ein fframwaith addysg. Mae'r meysydd polisi hyn yn adlewyrchu ein swyddogaethau

rheoleiddio craidd, gan oruchwylio pob cam o addysg a hyfforddiant meddygol. Fel rheoleiddiwr annibynnol, rydym yn gweithio i sicrhau bod addysg a hyfforddiant yn paratoi meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia at ddarparu gofal da a diogel i gleifion ledled y Deyrnas Unedig. Rydym yn gosod y safonau ar gyfer eu haddysg a'u hyfforddiant, yn cymeradwyo rhaglenni israddedig ac ôl-raddedig a'r asesuadau y mae'n rhaid iddynt eu pasio, ac yn cadw llygad ar ansawdd ar draws amgylcheddau dysgu drwy adolygiadau a monitro rheolaidd. Rydym hefyd yn ymgysylltu'n eang ar draws y system i ddeall eu profiadau ac i gefnogi dysgu o ansawdd uchel.

Mae gwaith Our Future Ed ar asesu, datblygu gyrfa a'r fframwaith addysg yn sicrhau bod y swyddogaethau hyn yn parhau i gyd-fynd ag arferion modern, yn cefnogi gofal da a diogel i gleifion, ac yn ymateb yn hyblyg i anghenion newidiol dysgwyr, addysgwyr a chyflogwyr ledled y Deyrnas Unedig.

Yn 2025, fe wnaethom ehangu ein hymgysylltiad ar draws y pedair gwlad i ddeall beth sydd angen newid. Roedd hyn yn cynnwys trafodaethau gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys addysgwyr, cyflogwyr, staff ysgolion meddygol, partneriaid gofal iechyd, cynrychiolwyr cleifion a'r cyhoedd, yn ogystal â meddygon eu hunain. Mae eu gwybodaeth yn ein helpu i greu darlun cliriach o'r heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau.

Mae cefnogi addysgwyr yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae tystiolaeth yn dangos eu bod o dan bwysau sylweddol, ond mae eu rôl yn ganolog i ddysgu a gofal o ansawdd uchel i gleifion. Rydym yn edrych ar sut gall y system gydnabod a chefnogi'r gweithlu hwn yn well, gan gynnwys drwy amser wedi'i neilltuo, disgwyliadau cliriach a llwybrau mwy amrywiol at arfer addysgol.

Rydym hefyd yn ystyried sut y gall dysgu fod yn fwy hyblyg a chyd-fynd yn well ag anghenion poblogaeth heddiw. Mae hyn yn cynnwys edrych ar sut gall cwricwla gefnogi dysgu sy'n fwy cyflawn, sut rydym yn galluogi gofal sy'n canolbwyntio ar y claf, a sut gall hyfforddiant adlewyrchu realiti ymarfer ar draws gwahanol leoliadau a chymunedau.

Mae gwella mynediad at hyfforddiant i bob meddyg yn ffocws allweddol arall. Mae'r twf mewn rolau sy'n cael eu cyflogi'n lleol yn tynnu sylw at yr angen am lwybrau dysgu mwy cynhwysol ac addasadwy, er mwyn gallu cydnabod a defnyddio'r sgiliau a'r profiad y mae meddygon yn y rolau hyn yn eu hennill ar draws ein systemau gofal iechyd i gefnogi datblygiad gyrfa. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i edrych ar sut y gall safonau a phrosesau ansawdd fod yn gyson ar draws amgylcheddau dysgu.

Yn bwysig iawn, mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ynghyd â phrofiadau cleifion a'r cyhoedd, yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o lywio ein ffordd o feddwl mewn perthynas â'r maes hwn. Mae'r safbwyntiau rydym yn eu cael drwy ymgysylltu ynghylch y pynciau hyn yn ein helpu i wneud yn siŵr bod ein cynigion yn adlewyrchu anghenion y boblogaeth gyfan, ac rydym wedi ymrwymo i greu mwy o gyfleoedd i gael mewnbyn ystyrlon wrth i'r gwaith ddatblygu.

Yn 2026, byddwn yn parhau i brofi syniadau sy'n dod i'r amlwg gyda rhanddeiliaid ac yn paratoi ar gyfer ymgysylltu pellach. Bydd hyn yn cynnwys arolwg cynhwysfawr o feddygon sy'n cael eu cyflogi'n lleol yn y Deyrnas Unedig a meddygon arbenigol ac arbenigwyr cyswllt (SAS) - y cyntaf ers 2019 - er mwyn deall eu profiadau a'u cyfleoedd i gael gafael ar hyfforddiant yn well.

Bydd cydweithio ac ymgysylltu parhaus yn hanfodol wrth i ni ddatblygu fframwaith sy'n

cefnogi gweithlu cynaliadwy ac sy'n cynnig gofal o ansawdd uchel i gleifion ledled y Deyrnas Unedig.

Cyflawni ein swyddogaethau craidd

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, yn 2025 fe wnaethom barhau i ganolbwyntio'n gryf ar gyflawni ein meysydd gwaith craidd yn effeithiol.

- Er gwaethaf cynnydd digynsail yn nifer y cwynion a gafwyd am ein cofrestryddion o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol,* ni chafodd hynny effaith ar yr amser a gymerwyd i fwrw ymlaen â'r achosion addasrwydd i ymarfer hyn yn y camau cynnar. Er ein bod wedi gweld rhai amrywiadau o ran mesurau prydlondeb, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar asesu risg a datblygu'r holl waith achos mor effeithlon â phosibl.
- Rydym wedi parhau i gynnal profion Bwrdd Asesiadau Proffesiynol ac Ieithyddol (PLAB) sy'n cydymffurfio â gofynion yr Asesiad Trwyddedu Meddygol (MLA) a gyflwynwyd gennym yn 2024. Mae'r ffaith bod PLAB yn cydymffurfio â MLA yn golygu bod meddygon sydd wedi cymhwyso'n rhyngwladol ac sy'n pasio'r prawf wedi dangos sgiliau a gwybodaeth sy'n cyfateb i sgiliau a gwybodaeth meddygon sy'n dechrau eu hail flwyddyn o hyfforddiant sylfaenol yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn golygu y gallant wneud cais am gofrestrriad llawn gyda thrwydded i ymarfer gan y GMC.
- Ar ôl cyflwyno rheoleiddio cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia, yn ystod 2025, safodd 21 o ymgeiswyr y prawf gwybodaeth asesiad cofrestru cymdeithion anaesthesia (AARA), a chafodd 12 asesiad gallu clinigol AARA eu cyflwyno i'w hadolygu.

* Gweler y bennod 2025 mewn niferoedd yn gynharach yn yr adroddiad hwn i gael rhagor o wybodaeth.

- O fis Medi 2025 ymlaen, disodlwyd yr Arholiad Cenedlaethol Cymdeithion Meddygol gan yr Asesiad Cofrestru Cymdeithion Meddygol. Rydym yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau ansawdd yr arholiad, sy'n cael ei ddarparu gan Goleg Brenhinol y Meddygon.
- Fe wnaethom barhau i adolygu cwricwla ôl-raddedig a'u rhaglenni asesu i wneud yn siŵr eu bod yn bodloni ein safonau, a thrwy ein [harolwg hyfforddiant cenedlaethol](#), casglwyd barn 71,000 o feddygon dan hyfforddiant a hyfforddwyr am ansawdd yr hyfforddiant.
- Fe wnaethom barhau i weithio gyda darparwyr hyfforddiant i wneud yn siŵr eu bod yn cyrraedd y safonau a osodwyd gennym. Yn 2025, fe wnaethom uwchgyfeirio pedair adran sy'n ymwneud â hyfforddiant meddygol ôl-raddedig nad oeddent yn bodloni ein safonau, i 'lefel monitro uwch'. Nod y lefel hon o graffu yw hyrwyddo ac annog rheolaeth leol o bryderon am ansawdd a diogelwch addysg a hyfforddiant meddygol. Os na fydd y safonau rydym yn eu gosod ar gyfer hyfforddiant yn cael eu bodloni ac os na welwn welliant digonol, gallwn osod amodau ar ein cymeradwyaeth o raglenni hyfforddi penodol. Os, a phryd, y bydd y sefyllfa'n gwella, gallwn isgyfeirio neu gau'r achos monitro uwch. Yn 2025, fe wnaethom lwyddo i isgyfeirio 16 achos o'r lefel monitro uwch.

Defnyddio data, ymchwil a mewnwelediad

Fel rhan o'n gwaith, rydym yn cynhyrchu ac yn rhannu data, ymchwil a mewnwelediadau am addysg ac ymarfer i gefnogi ein dealltwriaeth o dueddiadau presennol yn y sector a'r gwaith o ddatblygu polisiau a chynlluniau gofal iechyd ehangach ledled y Deyrnas Unedig.

Yn 2025, fe wnaethom gyfrannu at y cais am dystiolaeth ar gyfer y [Cynllun Gweithlu 10 Mlynedd](#), ac ymgynghoriad y Comisiwn Ansawdd Gofal ar [well rheoleiddio](#), [gwell gofal](#), y ddau yn ymwneud â Lloegr.

Yng Ngogledd Iwerddon, fe wnaethom ymateb i [gynigon bolisi 'Duty of Candour and Being Open'](#), yr Adran Iechyd, ar ôl ymateb yn wreiddiol i'r ymgynghoriad ar y pwnc yn 2021. Ac fe wnaethom ymateb i alwad am dystiolaeth ysgrifenedig ar Fil Amddiffyn Oedolion Cynulliad Gogledd Iwerddon, yn ogystal ag i ymgynghoriad ar y [Cod Ymarfer Diwygiedig ar gyfer y Gorchymyn Iechyd Meddwl](#).

Yn yr Alban, fe wnaethom gyfrannu at yr ymgynghoriad ar y bwriad i greu'r corff [NHS Delivery](#). Ar ben hynny, buom yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth yr Alban ar y [Future Medical Workforce Project](#) drwy rannu'r data, y wybodaeth a'r dealltwriaeth rydym wedi'u casglu hyd yma drwy ein rhaglen Future Ed.

Yng Nghymru, ymatebodd cydweithwyr i amrywiaeth o ymgynghoriadau, gan gynnwys cais Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) am dystiolaeth ar ei strategaeth addysg, ei ymgynghoriad ar [Fframwaith Cymhwysedd Cymru Gyfan ar gyfer Gofal Lliniarol a Diwedd Oes](#), ac [ymgynghoriad ar strategaeth Arolygiaeth Iechyd Cymru \(AGIC\) ar gyfer 2026-2030](#). Fe wnaethom hefyd gyfrannu at ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Fwrsariaeth GIG Cymru.

Roedd llawer o'r hyn y gwnaethom ei gyfrannu a'i rannu yn deillio o'n gwaith rheolaidd i ddeall y gweithlu a'r ffactorau sy'n effeithio ar gadw staff, yn ogystal â'n gwaith i sicrhau ansawdd amgylcheddau hyfforddi ar gyfer meddygon dan hyfforddiant ôl-raddedig. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:

- [arolwg hyfforddiant cenedlaethol 2025](#), a oedd yn dangos nifer o welliannau o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, gan gynnwys mwy o feddygon dan hyfforddiant yn adrodd profiadau

cynefino gadarnhaol, lefelau is o orweithio, a mwy o hyfforddwyr yn gallu defnyddio'r amser hyfforddi a ddyrannwyd iddynt. Fodd bynnag, tynnodd yr arolwg sylw hefyd at heriau parhaus, er enghraifft, bylchau mewn rotas, a pharhad ymddygiad gwahaniaethol mewn rhai gweithleoedd. Mae ein hadroddiad ar ganfyddiadau'r arolwg yn galw am ddiwygio ystyrllon a mwy o hyblygrwydd mewn hyfforddiant meddygol er mwyn osgoi colli gweithwyr proffesiynol talentog o'r gweithlu.

- ein hadroddiad yn 2025, [The state of medical education and practice in the UK: workforce report](#), a oedd yn dangos cynnydd yn nifer y meddygon sydd wedi cymhwyso'n rhyngwladol yn rhoi'r gorau i'w trwydded yn 2024, a chyfran is o feddygon yn llwyddo i gael gwaith yn y Deyrnas Unedig o'i gymharu â'r blynyddoedd diwethaf. Roedd yr adroddiad hefyd yn dangos, er bod nifer y meddygon sydd wedi cymhwyso'n rhyngwladol sy'n gwneud cais am hyfforddiant ôl-raddedig wedi cynyddu, bod yna gyfraddau llawer uwch o feddygon sydd wedi cymhwyso yn y Deyrnas Unedig yn cael eu derbyn i raglenni hyfforddi o hyd. Roedd hefyd yn cynnwys erthygl arbennig ar fenywod yn arwain y gad ym maes meddygaeth ers 1859, i ddathlu bod y gweithlu cyfan wedi cyrraedd yr un lefel o ran nifer y meddygon gwrywaidd a benywaidd sy'n bresennol ar ein cofrestr.
- ein hadroddiad yn 2025, [The state of medical education and practice in the UK: workplace experiences report](#), a nododd rhai gwelliannau graddol ran llesiant meddygon, gyda boddhad cyffredinol yn uwch a'r risg o orweithio'n is. Er mai hon oedd yr ail flwyddyn yn olynol lle gwelwyd rhai gwelliannau, roedd y data'n dangos bod llawer o heriau'n parhau: er enghraifft, roedd canran y meddygon a welodd diogelwch cleifion yn cael ei beryglu yn 2024 yn dal yn uchel, ac yn debyg i'r cyfrannau a welwyd yn 2023 a 2022. Ac er bod

meddygon teulu yn parhau i fod o dan y pwysau mwyaf, roedd pwysau llwyth gwaith hefyd i'w weld yn gyffredinol, gyda meddygon yn cymryd camau i leihau eu llwyth gwaith a'u cyfrifoldebau hyfforddi, sy'n creu darlun go bryderus o risg bosibl i gyflenwad y gweithlu yn y dyfodol.

- arolwg ar [feddygon sy'n mudo i'r DU](#), yr olaf mewn cyfres o ddarnau ymchwil strategol rydym wedi'u comisiynu i ddeall yn well beth sy'n sbarduno tueddiadau mudo rhyngwladol sy'n siapia gweithlu meddygol y Deyrnas Unedig. Roedd yr arolwg, a gyflwynwyd gennym yng nghynhadledd Cymdeithas Ryngwladol yr Awdurdodau Rheoleiddio Meddygol yn 2025, yn canolbwyntio ar y ffactorau sy'n cymhell meddygon sydd wedi cymhwyso'n rhyngwladol i ddilyn eu gyrfaedd yn y Deyrnas Unedig neu i fynd i rywle arall. Gall ei ganlyniadau gefnogi cynllunwyr y gweithlu a llunwyr polisïau yn eu hymdrechion i ddenu a chadw gweithlu meddygol cynaliadwy.
- ymchwil arall a gomisiynwyd, gan gynnwys ein [harolwg canfyddiadau interim](#) (y cyntaf i gynnwys cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia), ymchwil ar [brofiadau meddygon o ddefnyddio deallusrwydd artifisial \(AI\)](#), ac ymchwil i [gynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio](#).

Mae ein gwaith data ac ymchwil yn ystod 2025 wedi cryfhau ein sefyllfa fel sylwebydd a dylanwadwr iechyd allweddol ar faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu. Drwy adroddiadau megis *The state of medical education and practice in the UK* a'n arolwg hyfforddi cenedlaethol, rydym wedi llywio'r gwaith o gynllunio'r gweithlu ac wedi tynnu sylw at bwysau fel y rhai hynny o gwmpas capasiti hyfforddi, bylchau goruchwyllo, a gorweithio. Mae ein defnydd o ddata hefyd wedi ein galluogi ni i fonitro, sicrhau a datblygu'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau

rheoleiddio, gan sicrhau ein bod yn parhau i fod yn rheoleiddiwr teg; er enghraifft, yn 2025 fe wnaethom gynydd tuag at sefydlu a rhedeg mesurau monitro, adrodd a sicrwydd allanol ar gyfer tegwch a rhagfarn mewn 41 o benderfyniadau rheoleiddio uchel eu heffaith sy'n cwmpasu ein swyddogaethau.

Gwarchod yr amgylchedd

Fe wnaethom lansio ein cynllun sero net am y tro cyntaf yn 2023, gan osod targed i ni ddod yn sefydliad sero net erbyn 2040, sy'n golygu y bydd ein heffaith ar yr amgylchedd yn niwtral. Mae gennym nod canolraddol i gyrraedd allyriadau sero net ar gyfer cwmpasau 1 a 2 erbyn 2030* wedi ei ategu gan ymrwymiad i leihau ein hallyriadau cymaint â phosibl cyn gwrthbwysu allyriadau gweddilliol.

Rydym wedi lleihau ein hallyriadau cwmpas 1 a chwmpas 2 cyfun sy'n seiliedig ar y farchnad† yn 2025 ar ôl newid i dariffau trydan adnewyddadwy ym mhob un o'n swyddfeydd. Mae'r allyriadau hyn wedi gostwng o 556 tonnall yn 2019 i 155 tonnall yn 2025. Ochr yn ochr â hyn, mae ein defnydd cyffredinol o drydan wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf oherwydd prosiectau effeithlonrwydd ynni rydym wedi ymgymryd â nhw. Fe wnaethom newid ein batris UPS am fatris mwy gwyrdd, gosod goleuadau LED ychwanegol, lleihau'r cit ar ddesgiau, ac ychwanegu inswleiddio a gwydr eilaidd yn un o'n safleoedd.

Ein cadwyn gyflenwi a chaffael yw ein maes allyriadau mwyaf yn gyffredinol, ac rydym wedi cymryd camau i ymgysylltu â'n prif gyflenwyr ynghylch eu rhinweddau cynaliadwyedd eu hunain.

Mae ein hallyriadau teithio busnes hefyd wedi gostwng ers 2019 (o 727 tonnall o garbon deuocsid i 312 tonnall yn 2025), wrth i ni newid i ffyrdd mwy rhithiol o weithio yn sgil y pandemig. Mae ein Cynllun Teithio Gwyrdd yn ein helpu i edrych ar beth allwn ni ei wneud i leihau ein hallyriadau teithio ymhellach, ac yn 2025 fe wnaethom gynnal ein trydydd arolwg teithio a gweithio gartref blynyddol sy'n casglu data gwirioneddol gan gydweithwyr.

Fe wnaethon ni hefyd gryfhau ein dull o ymdrin â chynaliadwyedd a gweithredu ar newid hinsawdd drwy adolygu sut y gellid adlewyrchu'r themâu hyn mewn disgwyliadau addysg feddygol, a myfyrio ar sut y gallai ysgolion meddygol a darparwyr addysg eraill wella pethau'n ymarferol. Mae ein rhaglen Future Ed yn nodi cynaliadwyedd a gweithredu ar newid hinsawdd fel maes blaenoriaeth i'w ddatblygu, ac rydym yn disgwyl gwneud mwy o waith yn y maes hwn yn ystod y blynyddoedd nesaf.



* Allyriadau Cwmpas 1 yw'r nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu rheoli a'u hallyrru'n uniongyrchol gan sefydliad, sef yn achos y GMC yn bennaf oherwydd y defnydd o nwy. Allyriadau anuniongyrchol Cwmpas 2 yw'r rhai sy'n cael eu cynhyrchu drwy brynu a defnyddio trydan.

† Mae allyriadau sy'n seiliedig ar y farchnad yn allyriadau o drydan y mae sefydliadau wedi dewis eu prynu'n fwriadol drwy gcontractau y maent yn eu caffael: er enghraifft, drwy ddewis cyflenwyr sy'n defnyddio ynni adnewyddadwy.

Ac fel rhan o gystadleuaeth codi ymwybyddiaeth flynyddol rydym yn ei chynnal ar y cyd â'r Cyngor Ysgolion Meddygol, fe wnaethom ofyn i fyfyrwyr meddygol greu cynnwys ar-lein diddorol sy'n edrych ar pam mae cynaliadwyedd mewn gofal iechyd yn cael ei gynnwys fel dyletswydd yng nghanllawiau craidd y GMC i feddygon. Y cais buddugol oedd fideo byr gan fyfyrwr meddygol ail flwyddyn yng Ngholeg y Brenin, Llundain, a gafodd ganmoliaeth gan y beirniaid am ei ddull arloesol.

Buddsoddi yn ein pobl

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom gynnnydd pellach ar thema 'buddsoddi yn ein pobl' ein strategaeth.

- Fe wnaethom gyflwyno ein rhaglen *Meithrin Diwylliannau Cynhwysol* yn llwyddiannus, sydd wedi'i chynllunio i hyrwyddo datblygiad a chynnydd teg a chynhwysol ar draws y sefydliad.
- Gwnaethom gyflawni ein targed bod 20% o'n gweithlu yn dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig (gan gydnabod bod angen i ni wneud cynnydd pellach i sicrhau cynrychiolaeth briodol ar lefelau uwch hefyd).
- Fe wnaethom ddiweddarw meini prawf ein system rheoli perfformiad er mwyn ei gwneud yn decach.
- Fe wnaethom gynnal rhaglen interniaid lwyddiannus iawn arall, gyda chynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig o 60%.
- Yn dilyn ymgyrch hyrwyddo lwyddiannus, cynyddodd ein cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig i 100%.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan annatod o'n gwaith fel rheoleiddwr, ac fel cyflogwr.

Yn 2021, gwnaethom sefydlu dau darged allweddol mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant:

- dileu atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer anghymesur mewn perthynas ag ethnigrwydd a tharddiad cymhwyster meddygol erbyn 2026
- dileu gwahaniaethu, anfantais ac annhegwch mewn addysg feddygol erbyn 2031..

Rydym wedi bod yn cynnal rhaglenni gwaith sydd wedi'u cynllunio i helpu i gyflawni pob un o'r targedau hyn, yn ogystal â gwelliannau mewn dau faes arall: cynwysoldeb o fewn y GMC a thegwch rheoleiddiol.

Rydym yn adrodd ar bob un o'r rhaglenni hyn i'n Cyngor, ac yn cyhoeddi [adroddiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant blynyddol](#) i rannu'r cynnydd a wnaed tuag at y targedau hyn a pa gamau rydym yn credu y mae angen i ni ac eraill eu cymryd i wella.

Hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol

Yn 2025 fe wnaethom groesawu saith prentis i dimau gwahanol ar draws y GMC, gan gynnwys cynllunio busnes, gwasanaethau gwybodaeth, ymchwiliadau, a'r Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol. Mae prentisiaethau'n cynnig cyfleoedd gyrfa cyffrous ac amrywiol i'r rheini nad ydynt o bosibl yn gallu cael mynediad at addysg bellach, neu sy'n elwa'n benodol o hyfforddiant yn y gwaith.

Fe wnaethom hefyd ddechrau defnyddio prentisiaethau ar gyfer cydweithwyr presennol ar draws y sefydliad, gyda phenaethiaid adrannau yn ymuno â rhaglenni arweinyddiaeth, a nifer o gydweithwyr ym maes data, ymchwil a gwybodaeth yn cofrestru ar gyrsiau sy'n ymwneud â data.

Credwn fod yn rhaid i bobl ifanc gael cyfle teg a chyfartal i fod yn feddygon y dyfodol, felly mae ehangu cyfranogiad mewn addysg feddygol yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni. Yn 2025 fe wnaethom gynnal digwyddiadau ar gyfer dau sefydliad yn Llundain, [Melanin Medics](#) a [The Aspiring Medics](#), sydd ill dau o blaid amrywiaeth ethnig ac ehangu cyfranogiad mewn hyfforddiant a gyrfaoedd meddygol yn y Deyrnas Unedig ar gyfer fyfyrwyr o gefndir economaidd-gymdeithasol isel.

Roedd y digwyddiadau hyn yn darparu diwrnod llawn tiwtorialau a siaradwyr ar gyfer y rhai a oedd yn bresennol.

“Roeddwn i’n hoffi sut roedd y diwrnod yn cynnwys amrywiaeth o sesiynau gwahanol i gynnal diddordeb pawb. Roeddwn hefyd yn hoffi’r cyfle i ofyn cwestiynau i’r panel o feddygon.”

Myfyriwr blwyddyn sylfaen, Ysgol Feddygol Leeds

Fe wnaethom hefyd wahodd myfyrwyr o ysgolion meddygol ym mhrifysgolion Edge Hill, Leeds, Caerhirfryn a Chaerlŷr i ymweld â’n swyddfa ym Manceinion. Roedd pob un o’r myfyrwyr hyn wedi ymuno â hyfforddiant meddygol drwy gynllun ehangu cyfranogiad.

“Roeddwn i’n hoff iawn o ba mor rhyngweithiol oedd y digwyddiad cyfan. Fe wnaeth ein denu ni fel gwrandawyr a rhoi cipolwg i ni ar sut mae’r GMC yn gweithredu a sut gallwn ni ffynnu yn yr ysgol feddygol.”

Myfyriwr blwyddyn sylfaen, Ysgol Feddygol Caerlŷr

Edrych tua’r dyfodol

Ym mis Ionawr 2026, fe wnaethom lansio ein [strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2026–30](#).

Mae’r strategaeth newydd yn adeiladu ac yn ehangu ar uchelgeisiau ein strategaeth 2021-25, gyda’r nod o gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer 2030 o fod yn rheoleiddiwr effeithiol, perthnasol a thosturiol, sy’n gweithio mewn partneriaeth ag eraill ac sy’n cael ei arwain gan dystiolaeth a’n hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Wrth ddatblygu’r strategaeth newydd, gwnaethom ymdrechion sylweddol i glywed a deall barn cleifion, y gweithwyr proffesiynol rydym yn eu rheoleiddio, myfyrwyr, partneriaid yn systemau gofal iechyd y Deyrnas Unedig, a’r bobl sy’n gweithio i ni. Fe wnaethom hefyd ystyried y pwysau y mae’r system gofal iechyd wedi’u hwynebu wrth weithredu strategaeth 2021-25.

Er nad yw ein gweledigaeth wedi newid, yn ein strategaeth newydd rydym wedi bod yn gliriach ynghylch beth mae perthnasol, effeithiol a thosturiol yn ei olygu’n ymarferol.

Rydym hefyd wedi cadw hyblygrwydd ein strategaeth flaenorol, gan fod yn fanylach am ein hamcanion, sut maent yn ymwneud â llwyddiant, a sut byddwn yn defnyddio uchelgeisiau ein strategaeth newydd i wneud dewisiadau ynghylch ble i ganolbwyntio ein hymdrechion orau.

Mae pedair thema strategol i'n strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2026-30:

- **Cefnogi gofal da a diogel i gleifion:** byddwn yn gweithio gydag eraill i greu amgylcheddau gofal iechyd sy'n gynhwysol, cefnogol a theg.
- **Cyflawni gwaith rheoleiddio gwell a thecach:** byddwn yn moderneiddio ein prosesau i'w gwneud yn gyflymach, yn decach ac mewn sefyllfa well i gefnogi arferion da.
- **Sicrhau bod pob rhyngweithiad yn bwysig:** byddwn yn gwneud ein gwasanaethau'n hygyrch ac yn trin pawb â charedigrwydd, parch, ac effeithlonrwydd.
- **Bod yn sefydliad cynhwysol sy'n cael ei redeg yn dda:** byddwn yn buddsoddi yn ein pobl a'n diwylliant, ac yn defnyddio adnoddau'n gyfrifol, er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl.

Themâu strategol 2026–30



Ein gwaith ledled y Deyrnas Unedig

Mae ein timau allgymorth yn ymgysylltu'n uniongyrchol â meddygon, cymdeithion meddygol, cymdeithion anaesthesia, myfyrwyr, cyflogwyr, addysgwyr a rhanddeiliaid eraill i gynorthwyo'r gwaith o ddarparu gofal da a diogel i gleifion.

Mae'r cysylltiadau lleol cryf maent yn eu meithrin yn ein galluogi i hyrwyddo arferion da a dylanwadu ar newid cadarnhaol ac adeiladol ar gyfer meddygon, cymdeithion meddygol, cymdeithion anaesthesia, cleifion a rhanddeiliaid eraill yn systemau gofal iechyd y Deyrnas Unedig.

Mae'r timau'n cynnwys cynghorwyr cyswllt rhanbarthol neu genedlaethol, cynghorwyr cyswllt cyflogwyr, uwch gynghorwyr, cydlynwyr a chynorthwywyr gweithredol, rheolwyr busnes a phrosiect, a mwy nag 20 o swyddogion cyswllt ledled Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Yn Lloegr, mae'r timau wedi eu trefnu i adlewyrchu saith rhanbarth daearyddol GIG Lloegr: ac eithrio Llundain, mae pob tîm allgymorth yn Lloegr yn gwasanaethu dau ranbarth GIG Lloegr. Yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru, mae'r timau'n cwmpasu'r wlad i gyd. Mae'r dull hwn o weithredu yn sicrhau bod pob rhanbarth neu wlad yn cael ei hystyried ar wahân, er mwyn i gysylltiadau ac ymgysylltu cynhyrchiol ddigwydd ar y lefel gywir, drwy dimau o faint effeithiol y gellir eu rheoli.

Yn benodol, mae'r timau yn:

- hyfforddi meddygon, cymdeithion meddygol, cymdeithion anaesthesia a myfyrwyr ar y safonau proffesiynol a sut i'w cymhwyso
- cynghori clinigwyr, swyddogion cyfrifol, cyflogwyr ac eraill ar hyrwyddo arweinyddiaeth a diwylliant cadarnhaol a diogelu lles yn y gweithle

- cynghori swyddogion cyfrifol ac eraill ar faterion addasrwydd i ymarfer ac ail-ddilysu, gwella ansawdd atgyfeiriadau, ac ar lywodraethiant clinigol da, gan gynnwys datrys pryderon yn deg ac yn effeithiol yn lleol
- gweithio'n agos gyda chydweithwyr sy'n gyfrifol am oruchwylio addysg i sicrhau bod y safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant yn cael eu bodloni, ac i fynd i'r afael â heriau mewn amgylcheddau hyfforddi pan fydd y rhain yn dod i'r amlwg..

Mae'r ymgysylltu allanol hwn yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol ar draws ein systemau gofal iechyd, gan helpu hefyd i wella dealltwriaeth o bwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud, gan feithrin ymddiriedaeth yn ein gwaith.

Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn tynnu sylw at rywfaent o'r gwaith mae ein timau allgymorth wedi ei wneud ar y cyd â phartneriaid yn 2025.

Mae pob enghraifft yn helpu i ddangos ehangder ein gwaith allgymorth ac effaith gadarnhaol cymorth rheng flaen amserol wedi'i dargedu. Maent hefyd yn dangos gwerth meithrin cysylltiadau cryf a rhannu arbenigedd, gyda'r nod o hyrwyddo gofal da a diogel i gleifion a gwella amgylcheddau gwaith i feddygon, cymdeithion meddygol, cymdeithion anaesthesia a'r rhai sy'n gweithio gyda nhw.

Mae rhagor o wybodaeth am ein gwaith yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban ar gael drwy ddarllen ein [hadroddiadau cenedlaethol](#) diweddaraf.

Cefnogi meddygon sydd wedi cymhwyso'n rhyngwladol i siarad am ofal diwedd oes

Rydym yn gwybod o'n gwaith allgymorth y gall meddygon sydd wedi cymhwyso'n rhyngwladol deimlo'n llai hyderus wrth gynnal sgysiau gofal diwedd oes na rhai sydd wedi'u hyfforddi yn y Deyrnas Unedig. Yn dibynnu ar ba mor hir maen nhw wedi bod yn ymarfer yn y DU, gall arferion safonol ac arferion diwylliannol y DU o ran diwedd oes fod yn newydd iddyn nhw, a gall mynd i'r afael â'r sgysiau hyn (yn enwedig lle gallai rhwystrau iaith fodoli o hyd) fod yn frawychus.

Er mwyn cefnogi meddygon sydd wedi cymhwyso'n rhyngwladol i ddatblygu sgiliau i reoli a siarad am y pwnc emosiynol a sensitif hwn yn fwy effeithiol, dechreuodd ein Cyngorwyr Cyswllt Rhanbarthol yng Ngogledd Lloegr weithio gydag arweinwyr prosiect a strategol clinigol gofal diwedd oes GIG Lloegr i nodi ffyrdd y galleu helpu.

Gyda'i gilydd, fe wnaethon nhw ddatblygu sesiwn hyfforddi gofal diwedd oes rithiol ar gyfer meddygon sydd wedi cymhwyso'n rhyngwladol sy'n gweithio yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr, Cumbria, a Swydd Efrog a Humber, a dechreuon nhw ei gyflwyno yn 2025

Mae'r sesiwn yn ymdrin ag agweddau megis cyfathrebu a safbwyntiau diwylliannol gydag arweiniad a gwybodaeth am ein safonau proffesiynol, gan gynnwys o ran diwedd oes.

“Roedd enghreifftiau o senarios achos yn deillio o ymarfer, a chyfleoedd i ofyn cwestiynau, wedi helpu i drosi'r hyn a ddysgwyd yn ddefnydd ymarferol yn y byd go iawn.”

Meddyg a oedd yn bresennol yn y sesiwn gofal diwedd oes

Roedd pawb a gymerodd ran yn y gwaith o gynllunio a chyflwyno'r sesiynau wedi eu cael yn arbennig o werth chweil, gan ddweud eu bod yn gwneud cyfraniad pendant a chadarnhaol o ran cefnogi gofal sensitif ac ymarferol i gleifion ar adeg a all fod yn anodd iawn nid yn unig i gleifion a'u teuluoedd, ond hefyd i weithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Roedd llawer iawn o ddiddordeb yn y sesiwn, gyda 76 o feddygon yn bresennol yn y ddau gyntaf, a dros 100 yn cofrestru ar restr aros erbyn diwedd y flwyddyn. Rydym bellach yn cyflwyno rhagor o sesiynau, ac rydym yn gweithio gyda chydweithwyr i ystyried cyflwyno'r hyfforddiant mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

Roedd y sesiwn yn agoriad
“llygaid gyda llawer o
ddeunyddiau i'n helpu i ddysgu.”

Meddyg a oedd yn bresennol yn y sesiwn gofal diwedd oes

Datblygu hyfforddiant a rhwydweithiau ar gyfer swyddogion cyfrifol

Mae ein cyngorwyr cyswllt cyflogwyr yn gweithio gyda swyddogion cyfrifol ledled y Deyrnas Unedig i'w cefnogi i reoli pryderon am feddygon a'u hailddilysiad. Uwch feddyg (cyfarwyddwr meddygol yn aml) sy'n gyfrifol am lywodraethiant clinigol yw swyddog cyfrifol, ac mae'n canolbwyntio ar yr ymddygiad a pherfformiad meddygon eraill. Ymhlith pethau eraill, maen nhw'n gwerthuso addasrwydd meddyg i ymarfer, ac yn gwneud argymhelliad ailddilysu i ni.

Mae swyddogion cyfrifol yn Lloegr yn cael hyfforddiant a chynefino ar gyfer eu rolau gan GIG Lloegr. Hyd at 2023, roedd hyn yn cael ei ddarparu gan gwmni allanol, gyda mewnbwn gan y GMC. Fodd bynnag, yn 2023, penderfynodd GIG Lloegr weithio'n

uniongyrchol gyda ni a NHS Resolution i ddechrau darparu'r hyfforddiant a'r rhaglen gynefino hyn.

Datblygwyd a chyflwynwyd pecyn hyfforddi pwrpasol gan ein timau allgymorth ac ailddilysu ar gyfer swyddogion cyfrifol i'w paratoi ar gyfer heriau eu rôl o ddydd i ddydd, ac i sicrhau eu bod yn deall y cyfrifoldebau llywodraethu sydd ganddynt o ran rheoli pryderon diogelwch cleifion a chynnwys meddygon yn effeithiol yn y broses.

Mae'r hyfforddiant yn annog swyddogion cyfrifol a'u timau i ystyried a herio diwylliant eu sefydliad a'u llywodraethu mewnol wrth ymateb i bryderon am feddygon, gan sicrhau prosesau teg a chyson ni waeth beth fo cefndir, profiad neu nodweddion gwarchodedig meddyg.

Mae'n cynnwys deunyddiau newydd sy'n disgrifio rôl graidd swyddog cyfrifol, rôl ein cynghorwyr allgymorth, a'n prosesau o ran addasrwydd i ymarfer ac ailddilysu. Datblygodd y tîm hefyd set o astudiaethau achos gydag enghreifftiau o bryderon lleol y gallai swyddogion cyfrifol eu hwynebu.

Mewn partneriaeth â GIG Lloegr a NHS Resolution, rydym bellach yn darparu sesiynau hyfforddi diwrnod llawn ar gyfer swyddogion cyfrifol yn seiliedig ar y model hwn yn ein swyddfeydd ym Manceinion a Llundain, gyda chynghorwyr cyswllt cyflogwyr ar gael i gefnogi trafodaethau ac i ddarparu cyngor ac arweiniad.

Rydym hefyd wedi datblygu sesiwn ddilynol ar-lein a gyflwynir tua chwe mis ar ôl yr hyfforddiant cychwynnol. Mae hyn yn rhoi cyfle i swyddogion cyfrifol cadw mewn cysylltiad ac i ofyn unrhyw gwestiynau ar ôl cael mwy o brofiad yn eu rôl, gan greu cymuned o gymheiriaid a'r cyfle i barhau â sgysiau ynghylch tegwch mewn prosesau.

Yn 2025, fe wnaethom gynnal deg diwrnod hyfforddi fel rhan o'r fenter hon. Roedd y rhain wedi'u hategu gan sesiynau dilynol ar gyfer tua 200

o swyddogion cyfrifol newydd a'u timau i rannu profiadau ac unrhyw feysydd sy'n peri pryder.

“Roedd yr hyfforddiant yn ardderchog ac atebodd fy mhryderon i gyd.”

Adborth gan swyddog cyfrifol am yr hyfforddiant newydd

Mae cynnwys cynghorwyr cyswllt cyflogwyr yn uniongyrchol yn y gwaith o ddatblygu a darparu'r hyfforddiant nid yn unig yn helpu swyddogion cyfrifol ar ddechrau eu taith - mae hefyd yn helpu i atgyfnerthu arferion da yn y tymor hwy, gan ei fod yn cyfrannu at feithrin perthynas gryfach fyth â'r gweithwyr proffesiynol hyn.

Mae ein tîm allgymorth yn Llundain hefyd wedi bod yn allweddol wrth gefnogi swyddogion cyfrifol sy'n gweithio yn y diwydiant fferyllol, gan nodi'r angen am rwydwaith cymheiriaid yn benodol ar gyfer y grŵp arbenigol hwn a'i sefydlu.

Yn dilyn nifer o sgysiau gyda swyddogion cyfrifol yn y swyddi hyn, nododd ein cynghorwyr cyswllt cyflogwyr allgymorth yr angen am gynnwys arbenigol i gefnogi eu gwaith, yn ogystal â mecanwaith ymarferol i rannu'r cynnwys hwnnw â swyddogion cyfrifol sydd wedi'u gwasgaru ledled y wlad.

Gan nad yw'r swyddogion cyfrifol hyn yn gweithio o dan un swyddog cyfrifol lefel uwch sy'n gallu cydlynu a rhedeg rhwydwaith cymorth, trefnodd ein cynghorydd cyswllt cyflogwyr gyfarfod peilot a sefydlu cylch gorchwyl clir.

Ers hynny, rydym wedi nodi a chysylltu â mwy o swyddogion cyfrifol fferyllol a chyrrff dynodedig a allai elwa o ymuno â'r rhwydwaith, ac erbyn diwedd mis Rhagfyr 2025 roedd y rhwydwaith yn cynnwys dros 20 o swyddogion cyfrifol a'u timau.

“Rhyngweithio da a llawer o gyfleoedd i ofyn cwestiynau.”

Adborth gan swyddog cyfrifol am yr hyfforddiant newydd

Yn ogystal â darparu llwyfan i ni rannu diweddariadau allweddol ar ein canllawiau a helpu i uwchsgilio swyddogion cyfrifol fferyllol ar bynciau perthnasol megis deallusrwydd artiffisial mewn gofal iechyd, mae'r rhwydwaith newydd hefyd eisoes wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gael cyrff dynodedig i ddiweddaru eu polisiau addasrwydd i ymarfer lleol, yn seiliedig ar drafodaeth a mewnbwn gan gyfranogwyr rhwydwaith.

Croesawu cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia i gael eu rheoleiddio

Ym mis Rhagfyr 2024, fe wnaethom ddechrau rheoleiddio cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia.

Er mwyn helpu'r gweithwyr proffesiynol hyn i ddeall beth mae'n ei olygu i gael eu rheoleiddio, yn 2025 fe wnaethom weithredu rhaglen gyfathrebu bwrpasol, gyda'r nod o'u cyflwyno i'r GMC a rhoi dealltwriaeth glir iddynt o'n rôl a'r cymorth rydym yn ei ddarparu.

Fel rhan o hyn, mae cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia sydd newydd gofrestru wedi bod yn cael e-gylchlythyr misol, gyda phob rhifyn yn canolbwyntio ar agwedd wahanol ar ein rôl fel rheoleiddiwr.

Yn 2025, fe wnaethom anfon e-bost rhagarweiniol at 3,978 o gymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia sydd newydd gofrestru yn eu croesawu i'r gofrestr. Hyd yma, mae'r e-bost wedi cael ei agor gan 85% o'r derbynwyr. Rydym hefyd wedi gweld cyfraddau cyfartalog tebyg (80%) o ran agor ar gyfer naw rhifyn arall yr e-gylchlythyr newydd ar gyfer

cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia.

Mewn arolwg canfyddiadau a gynhaliwyd gennym i asesu pa mor dda yr oedd ein cyfathrebiadau wedi cael eu derbyn, dywedodd 67% o gymdeithion meddygol/cymdeithion anaesthesia eu bod yn teimlo eu bod wedi cael y lefel briodol o ohebiaeth gan y GMC; roedd 89% yn cytuno bod yr wybodaeth wedi bod yn glir ac yn hawdd ei deall, ac roedd 73% yn cytuno ei bod wedi bod yn ddefnyddiol ac yn empathig.

“Ni allaf ddweud wrthy ch faint mae eich cylchlythyr wedi fy mhlesio. Mae'r caredigrwydd a'r hyder rydych chi'n eu rhannu gyda'ch geiriau mor galonogol.”

Cydymaith meddygol

Ochr yn ochr â'n gohebiaeth ysgrifenedig, roedd ein timau allgymorth ledled y Deyrnas Unedig hefyd wedi darparu sesiynau wyneb yn wyneb a rhithiol i gymdeithion meddygol, cymdeithion anaesthesia a myfyrwyr y proffesiynau hyn, i'w croesawu i reoleiddio proffesiynol a'u helpu i ddeall sut mae'n gweithio. Roedd y sesiynau hefyd yn cyflwyno cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia i safonau *Ymarfer Meddygol Da* er mwyn iddynt allu dechrau gweld sut i'w defnyddio yn eu gwaith gyda chleifion a chydweithwyr.

Fe wnaethom hefyd gyflwyno sesiwn a oedd wedi'i chynllunio'n benodol i helpu cyflogwyr i ddeall y systemau y bydd angen iddynt eu rhoi ar waith er mwyn bod yn hyderus wrth reoli unrhyw bryderon a allai gael eu codi am ymarfer cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia, a sut gallant helpu'r gweithwyr proffesiynol hyn i gadw eu gwybodaeth a'u sgiliau'n gyfredol.

At ei gilydd, cyflwynodd ein timau allgymorth 43 o sesiynau i tua 1,500 o gymdeithion

meddygol, cymdeithion anaesthesia a myfyrwyr, ac i fwy na 250 o gyflogwyr.

“[Rhoddodd y sesiwn hon] eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau'r holl sefydliadau dan sylw, a chydabyddiaeth o'r gwaith sy'n dal i fynd rhagddo.”

Cyflogwr a oedd yn bresennol mewn sesiwn

Cefnogi gofal mamolaeth da a diogel

Dylai pawb gael gofal mamolaeth sy'n ddiogel ac yn dosturiol. Ond rydym ni'n gwybod nad yw hynny wedi digwydd bob amser. Mae rhai menywod a theuluoedd wedi cael profiadau trawmatig a thrasig iawn sydd wedi newid eu bywydau.

Fel sefydliad sy'n dysgu ac yn gwella, rydym yn gweithio'n agosach gyda menywod a theuluoedd i wrando ar eu pryderon a chymryd camau lle bo angen. Mae rhan o'n gwaith yn cynnwys cefnogi Adolygiad Mamolaeth Ockenden o wasanaethau mamolaeth yn Nottingham, yn ogystal â'r archwiliad cenedlaethol i wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol y GIG.

Yn 2025, fe wnaethom ymgysylltu â menywod a theuluoedd yn Nottingham, gan roi'r dewis iddynt i gwrdd â ni'n annibynnol neu ar y cyd â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth er mwyn iddynt allu osgoi gorfod ail-adrodd y digwyddiadau trawmatig a ddigwyddodd iddynt.

Bu ein timau allgymorth ledled Cymru a Lloegr hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i godi ymwybyddiaeth o bwy ydym ni a'r hyn rydym yn ei wneud fel rheoleiddiwr, gyda'r nod o gefnogi

menywod a theuluoedd sydd â phryderon am y gofal mamolaeth a newyddenedigol a gawsant.

Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod menywod a theuluoedd y mae materion mewn gofal mamolaeth yn effeithio arny'n nhw yn cael y cyngor a'r gefnogaeth gywir gan y sefydliadau cywir, sy'n cynnwys egluro'r hyn rydym yn ei wneud, y mathau o bryderon rydym yn edrych arny'n nhw, a sut mae mynegi pryder am weithwyr proffesiynol cofrestredig os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.

Fel rhan o hyn, buom yn gweithio gydag elusennau mamolaeth yn y Deyrnas Unedig i gynhyrchu adnodd newydd am ein rôl y gellir ei rannu â menywod a theuluoedd a gafodd brofiadau anodd ac sydd â phryderon am eu gofal.

Fe wnaethom hefyd adolygu a diweddarau rhai o'n hadnoddau cyhoeddus a'n [gwefan](#) i wneud yn siŵr eu bod mor ddefnyddiol â phosibl.

Ar ben hynny, yn Lloegr fe wnaethom ymgysylltu ag arweinwyr Partneriaeth Lleisiau Mamolaeth a Newyddenedigol a thimau cyswllt addasrwydd i ymarfer mewn ardaloedd lleol yn Lloegr lle mae menywod a theuluoedd wedi mynegi pryderon, a gydag elusennau mamolaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n gweithio gyda theuluoedd ac ar eu rhan.

Yng Nghymru, buom yn gweithio gyda Llais, sef corff sy'n cynrychioli llais y claf, i gefnogi eu gwaith gyda menywod a theuluoedd o ran gofal mamolaeth, a gwnaethom gyfrannu fel aelod o banel rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru ar gyfer asesiad cenedlaethol o wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol. Fe wnaethom hefyd ymuno â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), Gwella Iechyd Cymru, a NHS Resolution ar banel rheoleiddio yng Nghynhadledd Dysgu Mamolaeth a Newyddenedigol

Bae Abertawe, lle'r oedd cleifion a gweithwyr proffesiynol yn bresennol. Mae ein timau allgymorth ledled y DU yn parhau i weithio gyda phartneriaid i gefnogi gwelliannau mewn gofal mamolaeth a newyddenedigol, ac rydym wedi gweithio gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i ddarparu sesiynau ar y cyd i feddygon a nyrsys mewn obstetreg a bydwreigiaeth fel rhan o'n rhaglen waith ehangach ar ymddygiad proffesiynol a diwylliannau cadarnhaol.

Hwyluso sgysiau adborth tecach

Mae mynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghydraddoldeb yn flaenoriaeth frys i bawb sy'n gweithio yn ein gwasanaethau iechyd. Dyma'r peth cywir a theg i'w wneud. Mae hefyd yn hanfodol i helpu i gadw meddygon sy'n gweithio yn y Deyrnas Unedig a chefnogi gofal o ansawdd uchel i gleifion.

Mae ein data a'n hymchwil yn parhau i ddangos bod cyfraddau hyfforddiant a dilyniant gyrfa mewn meddygaeth yn wahanol pan fyddwn yn edrych ar grwpiau ar sail nodweddion gwarchodedig, ac yn enwedig ar sail ethnigrwydd.

Rydym wedi nodi meysydd o anghydraddoldeb y gallwn ni a sefydliadau eraill weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â nhw ac rydym wedi gosod targedau i'n helpu ni i gyd i ganolbwyntio ar greu newidiadau hirdymor. Fel y soniwyd yn y bennod *Cyflawni ein strategaeth* yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae un o'r rhain yn canolbwyntio ar wahaniaethu, anfantais ac annhegwch mewn addysg a hyfforddiant meddygol israddedig ac ôl-raddedig. Rydym am ddileu hyn erbyn 2031.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae hyfforddiant meddygon teulu wedi amrywio'n fawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda bron i 30% o hyfforddeion meddygon teulu presennol wedi cymhwyso'n rhyngwladol. I gydnabod y problemau

y mae meddygon o leiafrifoedd ethnig yn eu hwynebu o ran hyfforddiant, helpodd ein tîm allgymorth yng Ngogledd Iwerddon i dreialu 'sgysiau adborth tecach', sef gweithdy rhyngweithiol hanner diwrnod sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth o gyrhaeddiad gwahaniaethol mewn gofal iechyd.

“Mae gen i fwy o ymwybyddiaeth o sut y gellir dehongli dywediadau ac ymadroddion yn wahanol, a sut mae hyn yn berthnasol mewn adborth.”

Un o'r bobl oedd yn bresennol mewn gweithdy

Wedi'i anelu'n bennaf at oruchwylwyr clinigol sy'n hwyluso sgysiau adborth ffurfiol, mae'r gweithdy'n ymdrin â rôl sgysiau adborth mewn cyrhaeddiad hyfforddeion ac yn edrych ar wahanol ffyrdd y gall cyfranogwyr fynd ati'n rhagweithiol i hwyluso sgysiau adborth tecach. Anogir y rhai sy'n bresennol hefyd i fyfyrir ar eu bydolwg eu hunain, sut y gallai fod yn wahanol i bydolwg y rhai hynny y mae ganddynt gyfrifoldebau goruchwyllo drostynt, a pha effaith y gallai hynny ei chael.

Drwy ein gwaith gydag Asiantaeth Hyfforddiant Meddygol a Deintyddol Gogledd Iwerddon (NIMDTA), rydym bellach yn cyflwyno'r gweithdy newydd i bob hyfforddwr meddygon teulu ledled Gogledd Iwerddon. Yn 2025, cafodd ei gyflwyno i dros 120 o gyfranogwyr ar draws dau o'r pum ardal grŵp hyfforddwyr. Rydym yn edrych ymlaen at gyflwyno hyn ymhellach yn 2026.

“Rwy'n teimlo'n fwy ymwybodol o ragfarn ddiwylliannol, a sut y gallwn barhau i weithio tuag at fod yn weithle cynhwysol i bawb.”

Un o'r bobl oedd yn bresennol mewn gweithdy

Cefnogi Llywodraeth yr Alban i feithrin gweithlu sy'n addas ar gyfer y dyfodol

Nod gwaith NHS Renewal Llywodraeth yr Alban yw edrych ar a deall yr heriau a'r cyfleoedd i weithlu meddygol yr Alban dros y 15-20 mlynedd nesaf, a'r llwybr i ddarparu gweithlu sydd â'r sgiliau a'r arbenigedd cywir ar gyfer anghenion y boblogaeth.

Rhan allweddol o hyn yw'r Future Medical Workforce Project, dan arweiniad uned addysg a hyfforddiant meddygol y Llywodraeth. Roedd cam cyntaf y prosiect yn 2025 yn cynnwys ymgysylltu helaeth ledled yr Alban i fapio anghenion y boblogaeth a disgwyliadau meddygon. Ym mis Rhagfyr 2025, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban [adroddiad yn amlinellu canfyddiadau cam un](#). Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi sut mae 2,000 o feddygon ledled yr Alban yn gweld realiti gweithio yn system iechyd heddiw a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol.

Bu ein tîm yn yr Alban, gyda chefnogaeth cydweithwyr data ac ymchwil a pholisi addysg, yn ymgysylltu'n helaeth â Llywodraeth yr Alban ar y prosiect cam un pwysig hwn, gan weithio ar y cyd â llawer o bartneriaid eraill yn y wlad.

Fe wnaethom gynnig gwybodaeth ac arbenigedd polisi a ddatblygwyd drwy ein prosiect *Dyfodol addysg a datblygiad gyrfa*, yn ogystal â gwybodaeth gweithlu a data sy'n deillio o'n cofrestr ac o ymchwil.

Roeddem hefyd yn falch o fod yn rhan o Grŵp Cyngori Ymchwil Llywodraeth yr Alban, cyfrannu at drafodaeth bwrdd crwn ar ddata, ac ymuno â gweithdai rhanddeiliaid. Drwy'r rhain, fe wnaethom geisio sicrhau bod eu gwaith yn cael ei lywio'n gadarnhaol gan ein data a'n gwybodaeth.

Mae'r adroddiad ar gam un y prosiect yn adlewyrchu sut mae'r gweithlu meddygol yn newid, a sut bydd angen i addysg, hyfforddiant a datblygiad meddygon newid ac addasu yn y dyfodol. Mae hynny'n cyd-fynd â'n huchelgeisiau ein hunain, sy'n cynnwys adolygiad cynhwysfawr o addysg a hyfforddiant meddygol i sicrhau ein bod yn adeiladu rhaglenni addysg sy'n darparu dysgu hyblyg, teg ac arloesol i feddygon, ac sy'n rhoi'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddarparu'r gofal gorau i gleifion.

Mae cam dau'r prosiect ar y gweill yn 2026, gan ganolbwyntio ar gyd-ddylunio atebion gyda'r proffesiwn, ac edrychwn ymlaen at barhau i gydweithio ar y gwaith hanfodol hwn.

“Diolch i chi am fod yn agored ac am eich dealltwriaeth yn ystod y cam archwiliadol hwn. Mae eich ymgysylltiad wedi bod yn hollbwysig wrth lunio'r canfyddiadau [o'r adroddiad].”

Neil Gray, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth yr Alban

Ein strwythur, trefniadau llywodraethu a rheolaeth

Y Cyngor a grwpiau llywodraethu eraill

[Y Cyngor](#) yw ein corff llywodraethu. Mae'n darparu cyfeiriad strategol, yn dal y weithrediaeth i gyfrif, ac yn gwneud penderfyniadau polisi lefel uchel o bwys. Mae'n cynnwys 12 aelod o bedair gwlad y Deyrnas Unedig. Mae chwech yn aelodau cofrestredig ac mae chwech yn aelodau lleig.

Rydym yn elusen gofrestredig ac mae aelodau ein Cyngor hefyd yn ymddiriedolwyr y mudiad.

Maent i gyd yn cael eu penodi'n annibynnol gan y Cyfrin Gyngor drwy broses sy'n dilyn canllawiau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer gwneud penodiadau i gyrff rheoleiddio proffesiynol ym maes gofal iechyd.

Yr ymddiriedolwyr rhwng 1 Ionawr 2025 a 31 Rhagfyr 2025 oedd:

- Y Fonesig Carrie MacEwen (Cadeirydd)
- Alison Wright*
- Deepa Mann-Kler
- Douglas Millican
- Jane Ramsey
- Jeeves Wijesuriya
- Keith Lloyd
- Olamide Oguntimehin
- Raj Patel
- Suzanne Shale
- Vanessa Davies
- Wendy Williams.

Gofynnir i holl aelodau'r Cyngor hefyd ddatgan unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau. Mae'r rhain wedi eu rhestru mewn [cofrestr buddiannau](#) a gyhoeddwyd ar ein gwefan.

Mae aelodau'r Cyngor yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd un-i-un rheolaidd gyda'r Cadeirydd, adolygiadau gwerthuso blynyddol, ac mewn proses adborth 360 gradd sy'n cael ei chynnal bob dwy flynedd. Mae'r broses yn cynnwys ystyried unrhyw anghenion o ran dysgu a datblygu ac yn ailedrych ar wrthdaro gwirioneddol neu ymddangosiadol rhwng buddiannau i wneud yn siŵr bod modd rheoli unrhyw wrthdaro posibl a nodir.

Fel elusen, rydym yn ystyried yr wyth egwyddor a nodir yn y fersiwn newydd o'r Cod Llywodraethu Elusennau (a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2025). Fel gyda fersiwn blaenorol y cod hwn, rydym yn ei ddefnyddio i'n helpu i nodi meysydd i'w gwella ac yn ceisio cymhwyso neu egluro pob elfen. Mae ein tîm llywodraethu wedi adolygu'r 'dystiolaeth a'r sicrwydd a awgrymir' ar gyfer pob egwyddor ac mae'n fodlon, ond yn ystod haf 2026, rydym yn bwriadu cynnal archwiliad mwy ffurfiol yn erbyn y cod newydd hwn ar sail ymgeisio neu egluro. Fel rhan o hyn, rydym yn disgwyl symud i gylch blynyddol o adolygiadau effeithiolrwydd y Cyngor, fel y rhai a wneir ar gyfer pwyllgorau eraill.

Mae'r Llawlyfr Llywodraethu yn nodi rôl y GMC a phob elfen o fframwaith llywodraethu'r sefydliad. Ym mis Rhagfyr 2024, fe wnaethom ei adolygu i adlewyrchu cyflwyno Gorchymyn Cymdeithion Anaesthesia a Chymdeithion Meddygol (AAPAO). Gwnaed newidiadau i adlewyrchu'r ffaith mai'r GMC yw rheoleiddiwr meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia erbyn

* Ymddiswyddodd Alison Wright o'r Cyngor ar 12 Rhagfyr 2025 wrth iddi ymgymryd â'i swydd fel Llywydd Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr yn dilyn proses etholiad yn ystod yr haf. Penodwyd Lucinda Etheridge yn aelod cofrestredig gan y Cyfrin Gyngor o 1 Mawrth 2026 ymlaen yn dilyn ymgyrch recriwtio agored i lenwi'r swydd wag. Felly, ar ddyddiad llofnodi'r adroddiad hwn, roedd yr ymddiriedolwyr fel y'u rhestrir uchod, ond gyda Lucinda Etheridge yn lle Alison Wright.

hyn. Diweddarwyd yr amserlen awdurdod (neu gynllun dirprwyo gan y Cyngor), a chyflwynwyd Penderfynwyr Awdurdodedig i gyflawni rolau o dan yr AAPAO sy'n debyg eu natur i'r rolau a gyflawnir gan Gofrestryddion Cynorthwyol o dan y Ddeddf Meddygaeth. Gwneir unrhyw ddiweddariadau eraill gyda chymeradwyaeth y Cyngor yn barhaus.

Yn ogystal â chynorthwyo'r Cyngor i gynnal safonau llywodraethu uchel, mae ein Tîm Llywodraethu hefyd yn darparu hyfforddiant a chynghor i'r sefydliad ar faterion llywodraethu.

Mae pob pwyllgor yn adrodd i'r Cyngor drwy adroddiad ffurfiol, ac mae'r Cyngor a phob pwyllgor yn ymrwymo i adolygu effeithiolrwydd y pwyllgorau o ran cyflawni eu datganiad o ddiben, sy'n cael ei adolygu'n flynyddol.

Mae busnes y Cyngor yn cael ei gynnal mewn modd agored a thryloyw ac mae'r [agenda a'r papurau ar gyfer pob cyfarfod](#) yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Yn gyffredinol, mae'r Cyngor yn cyfarfod chwe gwaith y flwyddyn. Mae'n cyfarfod yn Llundain, ym Manceinion ac unwaith yn Belfast, Caerdydd neu Gaeredin. Yn ogystal â hyn, cynhelir diwrnod cwrdd i ffwrdd strategol unwaith y flwyddyn.

Mae'r diagram ar y dudalen ganlynol yn dangos y gwahanol grwpiau llywodraethu sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol. Mae'r Cyngor wedi cytuno ar y rhain i gyd. Disgrifir rolau a gweithgareddau'r grwpiau hyn yn y tudalennau sy'n dilyn.

Llywodraethiant y Cyngor

Y Cyngor

Pwyllgor Archwilio a Risg

Pwyllgor yr MPTS

Pwyllgor Taliadau

Grŵp Cyswllt
y GMC / yr MPTS

Pwyllgor Buddsoddi

Llywodraethu Gweithredol

Bwrdd Gweithredol, Bwrdd Pobl a Datblygu

Uwch Dîm Rheoli, Porth Cynllunio, Byrddau Rhaglenni

Ymgysylltu Ffurfiol

Fforymau Cyngori

Gogledd Iwerddon
Yr Alban
Cymru

Addysg

Cydraddoldeb, Amrywaieth a Chynwysiant Strategol
Gweithdrefnau'r GMC ac iechyd meddygon

Grwpiau Cyswllt

Grwpiau Gorchwyl a Gorffen

Pwyllgor Archwilio a Risg

Yn 2025, cadeiriwyd y Pwyllgor Archwilio a Risg (ARC) gan Vanessa Davies. Ei aelodau cyfetholedig allanol oedd Jon Hayes ac Aneen Blackmore.

Mae'r Pwyllgor yn chwarae rhan allweddol yn ein llywodraethu, gan roi sicrwydd annibynnol i'r Cyngor ynghylch:

- cywirdeb ein datganiadau ariannol
- effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol, llywodraethu a rheoli risg
- darparu gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol.

Cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith yn 2025, a darparodd nodyn briffio byr ar faterion allweddol i'r Cyngor ar ôl pob cyfarfod. Roedd hefyd yn adrodd yn ffurfiol i'r Cyngor ddwywaith, ym mis Mehefin a mis Rhagfyr. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ei waith yn adran *adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg* yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Pwyllgor Taliadau

Yn 2025, cadeiriwyd y Pwyllgor Taliadau gan Anthony Harnden.

Mae'r Pwyllgor yn cynghori'r Cyngor ar dâl, y telerau gwasanaeth a'r polisi treuliau ar gyfer aelodau'r Cyngor, gan gynnwys y Cadeirydd. Mae'n goruchwyllo proses recriwtio'r Cadeirydd ac aelodau'r Cyngor cyn iddynt gael eu penodi gan y Cyfrin Gyngor. Mae'n pennu'r broses benodi ar gyfer Prif Weithredwr a Chadeirydd y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol (MPTS), a thâl, buddion a thelerau gwasanaeth y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr, Cadeirydd yr MPTS ac aelodau Pwyllgor yr MPTS.

Yn 2025, roedd y Pwyllgor wedi cymryd rhan weithredol yn y broses o recriwtio Cadeirydd newydd i'r MPTS ac un aelod newydd o'r Cyngor. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y gwaith o

asesu a mesur perfformiad, recriwtio a chynllunio olyniaeth yn digwydd o fewn fframwaith priodol ar gyfer rolau uwch reolwyr o fewn ei gylch gwaith. Mae'r Pwyllgor yn adrodd yn flynyddol i'r Cyngor a bu iddo gyfarfod ddwywaith yn 2025.

Pwyllgor Buddsoddi

Cadeiriodd Douglas Millican y Pwyllgor Buddsoddi (IC) yn 2025. Aelodau cyfetholedig allanol y Pwyllgor yn ystod 2025 oedd Mike Jennings, Keith Mackay (tan 30 Ebrill) a Paul Cox (o 26 Mai ymlaen).

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am y canlynol:

- gweithredu ac adolygu ein polisi buddsoddi
- sicrhau bod y gwaith o reoli asedau yn cyd-fynd â'r polisi
- penodi a rheoli rheolwyr cronfeydd
- monitro perfformiad.
- goruchwyllo rheolwyr trysorlys
- goruchwyllo ein buddsoddiad yn GMC Services International Limited (GMCSI).

Mae'r Pwyllgor yn adrodd ar berfformiad buddsoddi i'r Cyngor ym mhob cyfarfod o'r Cyngor, ac mae'n adrodd ar berfformiad y portffolio i'r Cyngor yn flynyddol. Cyfarfu bum gwaith yn 2025.

GMC Services International

Sefydlwyd GMC Services International (GMCSI) gan y Cyngor yn 2016 fel is-gwmni masnachu dan berchnogaeth lwyr y GMC. Ei brif amcan yw cynnig cefnogaeth ac arbenigedd y GMC i wledydd a sefydliadau sy'n gweithio i wella safonau gofal iechyd, sydd â llai o brofiad o reoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac addysg feddygol. Mae trefniadau llywodraethu cadarn ac effeithiol ar waith i sicrhau bod ein buddiannau'n cael eu diogelu a bod ein perthynas â GMCSI yn cael ei rheoli'n effeithiol.

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb cyffredinol dros GMCSI; y Pwyllgor Buddsoddi sy'n goruchwyllo ein buddsoddiad yn GMCSI; ac mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystyried y risgiau i'r GMC o ganlyniad i weithgaredd GMCSI, gan gynnal archwiliadau mewnlol rheolaidd a hapwiriadau fel y bo'n briodol.

Cadeiriodd Andrew McCulloch Fwrdd GMCSI tan 31 Mai 2025. Jay Verma oedd y cadeirydd o fis Mai ymlaen. Roedd y Bwrdd yn cynnwys (yn ogystal â'r Cadeirydd) Paul Reynolds, Alison Wright, Deepa Mann-Kler, Colin Melville (tan ddiwedd mis Mehefin 2025), Pushpinder Mangat (o fis Gorffennaf 2025 ymlaen) a Helen Featherstone. Roedd Thalia Georgiou a Victoria Cheston yn aelodau annibynnol o'r Bwrdd yn ystod 2025. Cyfarfu'r Bwrdd bum gwaith yn 2025.

Ymddiswyddodd Jay Verma a Thalia Georgiou o'r bwrdd ym mis Rhagfyr 2025, ac fe ddaeth hyn yn dod i rym ar 11 Ionawr 2026. Ymddiswyddodd Alison Wright o'r bwrdd pan adawodd y Cyngor ym mis Rhagfyr 2025.

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr Pensiynau

Mae cynllun pensiwn staff buddion diffiniedig y GMC, sydd bellach wedi'i gau, yn cael ei reoli a'i weinyddu gan fwrdd ymddiriedolwyr yn unol â gweithred ymddiriedolaeth a rheolau'r cynllun. Mae'r ymddiriedolaeth yn sicrhau bod asedau'r cynllun pensiwn yn cael eu cadw ar wahân i asedau'r cyflogwr, ac mae'n endid ar wahân i'r GMC. Yn unol â hynny, mae'n adrodd drwy ei adroddiad blynyddol ei hun, sydd ar wahân.

Mae ymddiriedolwyr y cynllun yn gyfrifol am redeg y cynllun yn briodol, gan gynnwys casglu cyfraniadau, buddsoddi asedau a thalu'r ymrwymadau buddion pensiwn a wneir gan y cyflogwr.

Cadeiriodd Graeme Caughey y Bwrdd yn ystod 2025. Mae'n ymddiriedolwr a enwebwyd gan y cyflogwr, ynghyd â Vanessa Davies, Raj Patel ac Ian Hodgson. Mae John Foley, Paula Robblee, Samantha Anthony, Martin Hart (tan 30 Ebrill) a Helen Sinclair (o 1 Mai ymlaen) yn ymddiriedolwyr a enwebwyd gan aelodau.

Pwyllgor yr MPTS

Mae'r Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol (MPTS) yn cynnal gwrandawiadau sy'n gwneud penderfyniadau annibynnol ynghylch a yw meddygon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia yn addas i ymarfer yn y Deyrnas Unedig. Mae'n gweithredu ar wahân i rôl ymchwilio'r Cyngor Meddygol Cyffredinol. Rhan allweddol o'n strwythur llywodraethu yw'r Pwyllgor MPTS statudol, sy'n sicrhau bod yr MPTS yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Meddygaeth 1983 a'r Gorchymyn Cymdeithion Anaesthesia a Chymdeithion Meddygol (AAPAO).

Ei Hanrhydedd y Barnwr Deborah Taylor oedd Cadeirydd yr MPTS tan fis Mai 2025, pan ymddiswyddodd er mwyn cadeirio Ymchwiliad Nottingham. Gwasanaethodd Gill Edelman, aelod o Bwyllgor yr MPTS, fel Cadeirydd Dros Dro am weddill y flwyddyn.

Mae Grŵp Cyswllt y GMC / yr MPTS yn rhan greiddiol arall o'n fframwaith llywodraethu. Mae'n cael ei gadeirio gan Gadeirydd y Cyngor, ac mae'n goruchwyllo'r berthynas waith rhwng yr MPTS a swyddogaethau'r GMC y mae'n rhyngweithio â nhw.

Y Bwrdd Gweithredol a'r Bwrdd Pobl a Datblygu

Y Bwrdd Gweithredol yw'r uwch fforwm gwneud penderfyniadau a goruchwyllo sy'n darparu cyfeiriad strategol, craffu ac adrodd i'r Cyngor gan uwch dîm rheoli'r GMC. Mae'r Bwrdd yn cwrdd bob mis (ac eithrio mis Awst) ac yn adrodd i bob cyfarfod o'r Cyngor drwy adroddiad y Prif Weithredwr a thrwy adroddiad blynyddol ar wahân.

Mae'r Bwrdd Pobl a Datblygu yn cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr ac mae'n cyfarfod bum gwaith y flwyddyn i ddod â ffocws i'n strategaethau pobl. Adroddir ar ganlyniad ei waith i'r Bwrdd Gweithredol, ac i'r Cyngor.

Fforymau Cynghori'r Deyrnas Unedig

Mae gennym [Fforymau Cynghori](#) sefydledig yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban, sy'n sicrhau ein bod ni'n ymgysylltu ac yn ymgynghori'n effeithiol â grwpiau buddiant allweddol ym mhob gwlad, a bod ein polisiau'n addas i bob rhan o'r Deyrnas Unedig. Drwy'r fforymau, rydym yn rhannu ac yn trafod safbwyntiau cam cynnar ar ddatblygu polisi, sy'n ein galluogi i ganolbwyntio ar flaenoriaethau tymor canolig a thymor hir mewn deialog â'n partneriaid.

Mae'r Fonesig Carrie MacEwen yn cadeirio'r tri fforwm, gyda'r Prif Weithredwr ac aelodau o'r Cyngor sy'n benodol i'r wlad yn bresennol, ynghyd ag uwch staff o'r GMC. Mae'r aelodaeth a wahoddir yn amrywio o wlad i wlad ac mae'n adlewyrchu'r amrywiaeth eang o bobl sydd â diddordeb ac arbenigedd yn y meysydd o dan ein rheoliadau ledled y DU. Mae'r fforymau'n adrodd ar eu gwaith i'r Bwrdd Gweithredol ddwywaith y flwyddyn.

Fforwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Strategol

Mae ein Fforwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Strategol yn ein helpu i wneud yn siŵr bod ein gweithgareddau'n ymateb i anghenion grwpiau amrywiol o unigolion cofrestredig. Mae Paul Reynolds, Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu Strategol, yn cadeirio'r Fforwm sy'n cynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli unigolion cofrestredig sydd â nodweddion gwarchodedig cyffredin. Mae'n ein helpu i gyflawni ein hamcanion o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant drwy roi adborth a chynghor ar ein polisiau a'n strategaethau, gan godi materion a phryderon sydd angen ein sylw mewn perthynas â chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae gwaith ein Fforwm Cydraddoldeb Hiliol yn dwyn ynghyd amrywiaeth o randdeiliaid sydd â diddordeb penodol mewn cydraddoldeb hiliol i eistedd ochr yn ochr â'n Fforwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Strategol cyffredinol i ddarparu ffocws mwy penodol. Yn 2025, trafododd Fforwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Strategol y pwyntiau canlynol:

- ein rhaglen diwygio rheoleiddio
- adolygu ein fforymau ymgysylltu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- materion sy'n codi o'r gwrthdaro yn y Dwyrain Canol
- ein strategaeth gorfforaethol
- diwygio addysg
- Canllawiau ar Sancsiynau'r MPTS.

Fforwm Gweithdrefnau'r GMC ac Iechyd Meddygon

Mae ein Fforwm Cyngori ar Weithdrefnau'r GMC ac Iechyd Meddygon yn rhoi cyngor arbenigol i'n Bwrdd Gweithredol ar sut rydym yn ymgysylltu â meddygon sy'n agored i niwed ym mhrosesau'r GMC. Gall y Fforwm, yn ôl y gofyn, roi cyngor ar bolisiau, canllawiau a hyfforddiant y GMC i staff.

Mae'r aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o Goleg Brenhinol y Seiciatryddion, Coleg

Brenhinol y Meddygon Teulu, y Gyfadran Iechyd Galwedigaethol, Cynhadledd Deoniaid Meddygol ôl-raddedig, a Darparwyr y GIG.

Fforwm Cyngori ar Addysg

Mae'r Fforwm Cyngori ar Addysg yn ymgysylltu â'n grwpiau diddordeb allweddol ar faterion addysg, hyfforddiant ac asesu, gan sicrhau ein bod yn gallu datblygu a hyrwyddo agwedd strategol at y gwaith hwn ar draws holl wledydd y Deyrnas Unedig.

Presenoldeb aelodau yn y Cyngor, Byrddau a Phwyllgorau yn 2025*

Aelod	Presenoldeb yn y Cyngor [†]	Presenoldeb mewn pwyllgorau
Y Fonesig Carrie MacEwen (Cadeirydd)	6/6	NA
Vanessa Davies	6/6	10/10
Deepa Mann-Kler	5/6	8/10
Douglas Millican	6/6	6/6
Raj Patel	6/6	6/7
Suzanne Shale	5/6	9/9
Jeeves Wijesuriya	5/6	7/7
Alison Wright	6/6	7/7
Keith Lloyd	5/6	4/5
Olamide Oguntimehin	6/6	3/4
Jane Ramsey	6/6	2/2
Wendy Williams	6/6	3/4
Aneen Blackmore (Aelod cyfetholedig ARC)	N/A	4/5
Jon Hayes (Aelod cyfetholedig ARC)	N/A	5/5
Michael Jennings (Aelod cyfetholedig IC)	N/A	4/4
Keith Mackay	N/A	1/1
Paul Cox (Aelod cyfetholedig IC)	N/A	3/3

* Mae presenoldeb yn adlewyrchu nifer y cyfarfodydd lle'r oedd presenoldeb yn bosibl.

† Mae'n cynnwys chwe chyfarfod o'r Cyngor.

Rheolwyr

Yn 2025, roedd ein staff o dan gyfarwyddyd y Prif Weithredwr, Charlie Massey. Fe'i cynorthwyir gan dîm o gyfarwyddwyr sef, ar 31 Rhagfyr 2025:

- Shaun Gallagher, Cyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi
- Una Lane, Cyfarwyddwr Cofrestru ac Ailddilysu
- Pushpinder Mangat, Cyfarwyddwr Meddygol a Chyfarwyddwr Addysg a Safonau*
- Anthony Omo, Cwnsler Cyffredinol a Chyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer
- Paul Reynolds, Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu Strategol
- Neil Roberts, Cyfarwyddwr Adnoddau.

Staff rheoli allweddol: polisi tâl

Y Pwyllgor Taliadau sy'n gyfrifol am bennu taliadau, buddion a thelerau gwasanaeth ar gyfer y Prif Weithredwr, Cadeirydd yr MPTS a chyfarwyddwyr. Mae'r Pwyllgor yn pennu pob agwedd ar gyflog neu honoraria, darparu buddion eraill, ac unrhyw drefniadau neu delerau cytundebol eraill ar gyfer y grŵp hwn o staff. Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwyllo telerau ac amodau aelodau'r Cyngor (gan gynnwys y Cadeirydd) drwy feincnodi a cheisio cyngor annibynnol ar y farchnad pan fo angen.

Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylem ddarparu tâl a gwobrau a fydd yn denu ac yn cadw'r staff o'r radd flaenaf sydd eu hangen i'n galluogi i gyflawni ein cylch gwaith statudol a chyflawni ein hamcanion strategol.

Wrth bennu'r cyflog sylfaenol ar gyfer swyddi unigol, bydd y Pwyllgor yn derbyn cyngor allanol ar rolau o fewn ei gylch gwaith ac yn cysoni cyflogau â chyfradd farchnad briodol yn amodol ar ystyriaethau adnoddau.

Mae dyfarniad cyflog cyfunol blynyddol yn cael ei ystyried gan gyfeirio at lefel perfformiad y sefydliad, goblygiadau ariannol unrhyw ddyfarniad, y dyfarniad y cytunwyd arno ar gyfer gweithwyr eraill y GMC a thueddiadau ehangach y farchnad. Ystyrir elfen flynyddol amrywiol heb ei chyfuno, sy'n adlewyrchu perfformiad personol a'r un ystyriaethau sy'n berthnasol i unrhyw ddyfarniad cyfunol. Rydym yn adolygu effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn flynyddol.

Fel arfer, bydd gan staff o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Tâl hawl i'r pecyn buddion sydd ar gael i holl weithwyr y GMC ar yr un telerau. Mae'r Pwyllgor yn cadw'r gallu i dynnu'n ôl, addasu neu newid unrhyw fudd i staff o fewn ei gylch gwaith, yn amodol ar unrhyw ofynion ymgynghori a chytundebol. Mae'r Pwyllgor yn ystyried unrhyw fuddion ychwanegol mewn nwyddau (fel taliadau adleoli) fesul achos.

Mae staff allanol newydd a benodir o fewn cylch gwaith y Pwyllgor yn cael eu cofrestru'n awtomatig ar ein cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Os oes gan weithwyr drefniadau pensiwn y cytunwyd arnynt yn barod, megis aelodaeth o'n cynllun buddion diffiniedig, maent yn cadw hyn ar gyfer eu cyflogaeth, yn amodol ar unrhyw newid i'r rheolau y cytunwyd arnynt gan ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn a'r cyflogwr.

Mae'r Pwyllgor yn gwneud yn siŵr bod goblygiadau polisi tâl a phenderfyniadau cysylltiedig o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hystyried yn briodol. Yn benodol, mae'n sicrhau:

* Daeth Pushpinder Mangat yn Gyfarwyddwr Meddygol ac yn Gyfarwyddwr Addysg a Safonau ar 1 Gorffennaf 2025 ar ôl cyfnod pontio a chynefino byr yn gweithio ochr yn ochr â Colin Melville, a ymddeolodd o'r rôl ym mis Mehefin 2025.

- bod unrhyw wahaniaethau cyflog yn cael eu cefnogi gan werthusiad ffurfiol o'r swydd neu gyngor annibynnol ar y farchnad allanol
- bod unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â thâl amrywiol yn cael eu cefnogi gan asesiad gwrthrychol o berfformiad
- nid yw unrhyw addasiad neu newidiadau i drefniadau tâl yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon.

Mae penderfyniadau eraill sy'n ymwneud â thelerau gwasanaeth yn cael eu cefnogi gan gyngor priodol ar unrhyw oblygiadau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Adolygiad ariannol 2025

Mae'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2025 wedi cael eu paratoi yn unol â Datganiad Ymarfer Cymeradwy yr Elusennau (FRS 102).

Roedd cyfanswm ein cronfeydd rhydd, sef cyfanswm y cronfeydd wrth gefn llai'r diffyg pensiwn buddion diffiniedig a'r asedau sefydlog, yn £56.7 miliwn ar ddiwedd 2025, i fyny o £48.9 miliwn ar ddiwedd 2024, wedi'i sbarduno'n bennaf gan warged gweithredol, sy'n gadael cronfeydd wrth gefn yn hanner uchaf ein hystod darged.

- Cynyddodd cyfanswm yr incwm £4.3 miliwn a chyfanswm y gwariant £4.1 miliwn.
- Gwelsom ostyngiad yn lefel yr incwm a gynhyrchwyd gan arholiadau'r Bwrdd Asesiadau Proffesiynol ac Ieithyddol (PLAB) ac rydym yn rhagweld y bydd y duedd hon yn parhau i'r tymor canolig.
- Gwnaethom barhau i ariannu'r gwaith i ddisodli ein systemau tîm cyllid a phobl yn ystod 2025 ac rydym yn disgwyl i hyn barhau hyd at ddiwedd 2026.
- Roedd cynnydd mewn ffioedd yn 2025 yn cyfateb i chwyddiant mynegai prisiau defnyddwyr, gan ddefnyddio cyfradd mis Medi 2024, fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb.
- Fe wnaethom addasiad i falansau 2024, gan fod ormod o incwm wedi'i ryddhau mewn blynyddoedd blaenorol, sef cyfanswm o £2.9 miliwn, a oedd yn lleihau lefel y cronfeydd rhydd a ddygwyd ymlaen.

Cyfanswm ein hincwm a'n gwariant yn 2025

Yn 2025, fe wnaethom gynhyrchu incwm anghyfyngedig o £169.8 miliwn, a oedd £5.7 miliwn yn uwch na 2024. Roedd hyn oherwydd y cynnydd yn nifer y meddygon ar y gofrestr feddygol, ond cafodd hyn ei wrthbwysu gan ostyngiad o £6 miliwn yn incwm PLAB.

Mae gennym £1.7 miliwn arall o incwm cyfyngedig yn ein cyfrifon, gan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU, i dalu am y gost net, ar ôl ystyried incwm ffioedd cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia, o reoleiddio cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia. Fe wnaethom gyflwyno ffi gofrestru ar gyfer cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia pan ddaeth y rheoliad i rym ar 13 Rhagfyr 2024, gyda'r bwriad o adennill costau rheoleiddio gan y proffesiynau hynny, yn unol ag atodlen 4, paragraff 8 (3) Gorchymyn Cymdeithion Anaesthesia a Chymdeithion Meddygol 2024.

Mae Atodlen 3, paragraff 6 (b) y Gorchymyn hefyd yn mynnu ein bod yn ystyried effaith unrhyw newid i ffioedd ar weithlu'r gwasanaeth iechyd yn y Deyrnas Unedig, cymdeithion meddygol, cymdeithion anaesthesia, a'r rheoleiddiwr. Ym mis Rhagfyr 2025 cymeradwyodd y Cyngor 3.8% o gynnydd chwyddiannol yn y ffi, i ddod i rym ym mis Ebrill 2026. Rydym o'r farn na fydd cynnydd mewn ffioedd ar y lefel hon yn cael unrhyw effaith sylweddol ar y gweithlu, y cymdeithion meddygol na'r cymdeithion anaesthesia, ond mae'n rhoi modd i ni, y rheoleiddiwr, barhau i adennill costau yn unol ag atodlen 4, paragraff 8 (3) y Gorchymyn.

Fe wnaethom gynhyrchu £1.4 miliwn mewn ffioedd drwy gofrestru cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia. Yn ystod 2025, talwyd y gost o reoleiddio cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia yn llawn drwy ffioedd cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia a chyllid a ddarparwyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Wrth i'r gwaith rheoleiddio ddechrau ym mis Rhagfyr 2024, mae'r costau datblygu TG anniriaethol, a ariannwyd mewn blynyddoedd blaenorol, wedi cael eu hamorteiddio yn unol â'n polisi, gan arwain at £2.6 miliwn o gostau sydd wedi'u cynnwys yn y datganiad o weithgareddau ariannol.

Roedd ein gwariant elusennol anghyfyngedig yn 2025 yn £158.4 miliwn, a oedd yn £6.3 miliwn o gynnydd ers 2024. Roedd y twf hwn mewn gwariant o ganlyniad i chwyddiant ar ein sylfaen gostau.

Nid oedd gan yr elusen unrhyw weithgareddau codi arian yr oedd angen eu datgelu dan A162A Deddf Elusennau 2011.

Polisi cronfeydd a busnes gweithredol

Mae lefel ein cronfeydd wrth gefn a'n polisi cronfeydd wrth gefn yn cael eu hadolygu bob blwyddyn, ac mae unrhyw oblygiad ariannol yn cael sylw fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb.

Mae cyfanswm ein cronfeydd yn cynnwys cronfeydd rhydd, cronfeydd wedi eu hategu gan asedau sefydlog a chronfeydd pensiwn.

Mae gennym gronfeydd rhydd ar gyfer:

- darparu cyfalaf gweithiol i ymgymryd â'n busnes arferol o ddydd i ddydd
- darparu arian i ddelfio ag unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg

- darparu cyllid i ymateb i fentrau, cyfleoedd a heriau newydd sy'n dod i'r amlwg
- cwmpasu'r cyfnod cyn i unrhyw newidiadau i lefelau ffioedd gael effaith lawn.

Mae cyfran sylweddol o gyfanswm ein cronfeydd yn cael ei chynrychioli gan asedau sefydlog, na ellir eu trosi'n arian parod yn hawdd heb effeithio'n andwyol ar ein gallu i gyflawni ein nodau elusennol a'n rhwymedigaethau statudol. Felly, caiff gwerth asedau sefydlog ei ddiystyru at ddibenion polisi cronfeydd.

Caiff gwerth cronfeydd pensiwn wrth gefn ei ddiystyru hefyd at ddibenion polisi cronfeydd wrth gefn. Cafodd ein cynllun buddion diffiniedig ei gau i groniadau yn y dyfodol yn 2018, a gellir rheoli unrhyw ddiffyg neu warged yn y cynllun dros y tymor canolig, heb effeithio'n uniongyrchol ar y cronfeydd rhydd.

Nid oes fformiwla safonol y gellir ei defnyddio i gyfrifo'r lefel ddelfrydol o gronfeydd rhydd. Rydym yn dilyn canllawiau'r Comisiwn Elusennau ac yn gosod ystod darged yn seiliedig ar ein gofynion llif arian ac asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r sefydliad. Ein nod yw cadw cronfeydd rhydd ar lefel nad yw'n ormodol, ond nad yw'n peryglu ein solfedd. Dros y tymor canolig, rydym yn targedu pwynt canol ystod cronfeydd o rhwng 20% a 35% o'r gwariant blynyddol ar gyfer y 12 mis nesaf, oni bai fod rhesymau clir dros ddal lefel wahanol o fewn ein hystod darged. Rydym yn derbyn amrywiadau o fewn yr ystod yn y tymor byr. Daeth 2025 i ben tuag at ben uchaf ein hystod wrth gefn, gyda lefelau'r cronfeydd wrth gefn yn 33% o gyfanswm y gwariant a gyllidebwyd ar gyfer 2026.

Byddwn hefyd yn parhau i adolygu pwrpas a chwmpas ein polisi cronfeydd bob blwyddyn i sicrhau bod y trothwyon yn adlewyrchu ein proffil risg presennol, gofynion llif arian a'r amgylchedd gweithredu.

Cyfanswm ein cronfeydd ar ddiwedd 2025 oedd £74.8 miliwn, gan gynyddu £4.1 miliwn o'r

flwyddyn flaenorol, a oedd wedi'i sbarduno'n bennaf gan y gwagedd gweithredu.

Roedd cronfeydd rhydd yn cyfateb i £56.7 miliwn o falans cyfanswm y cronfeydd, gyda £25.7 miliwn arall o gronfeydd yn cael eu cynrychioli gan asedau sefydlog, gyda'r ddau'n cael eu gwrthbwysu'n rhannol gan ein diffyg pensiwn ar hyn o bryd. Rydym yn disgwyl y bydd y cronfeydd ar ddiwedd 2026 yn aros o fewn paramedrau ein polisi cronfeydd.

Daw'r rhan fwyaf o'n hincwm o ffioedd cofrestru a delir gan feddygon. Rhaid i bob meddyg fod wedi cofrestru gyda ni i ymarfer meddygaeth yn y Deyrnas Unedig, ac felly mae ein hincwm yn gymharol sicr. Mae'r ymddiriedolwyr yn dal o'r farn bod y GMC yn fusnes gweithredol am y dyfodol rhagweladwy ac felly maent wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

Nid oes unrhyw ansicrwydd o bwys yn gysylltiedig â digwyddiadau neu amodau sy'n bwrw amheuaeth sylweddol ar ein sefydlogrwydd ariannol yn y dyfodol rhagweladwy.

Polisi buddsoddi

Mae ein Cyngor yn gyfrifol am bennu ac adolygu'r polisi buddsoddi cyffredinol, yr amcanion, y parodrwydd i dderbyn risg a'r adenillion targed. Mae wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb dros weithredu'r polisi buddsoddi, penodi a rheoli rheolwyr cronfeydd, a monitro perfformiad, i'r Pwyllgor Buddsoddi, sy'n adrodd yn rheolaidd i'r Cyngor.

Mae modd gwahanu ein cronfeydd yn bedwar categori: y rhai sy'n ofynnol fel cyfalaf gweithio ar gyfer gweithrediad arferol y busnes o ddydd i ddydd; y rhai y gallwn fuddsoddi ynddynt o dan reolaeth, y rhai y gallwn fuddsoddi ynddynt drwy is-gwmni masnachu, a'r balans arian sy'n weddill.

Rydym yn dal cyfalaf gweithio at ddibenion llif arian arferol. Cedwir hyn mewn cyfrifon banc mynediad cyflym ac mae'n darparu digon o hyblygrwydd i osgoi benthyca dros dro a/neu'r angen i ddiddymu buddsoddiadau i ddelio ag amrywiadau tymor byr mewn incwm a gwariant gweithredol.

Y Cyngor sy'n gyfrifol am bennu lefel y risg ar gyfer arian a fuddsoddir dan reolaeth. Mae gennym archwaeth risg isel gyda'r nod o gynhyrchu enillion tra'n diogelu rhag anwadalrwydd a cholli cyfalaf. Targed uchaf y gwerth mewn perygl (VAR) yw 10% ar edrych tua'r dyfodol.

O fewn ein cyfyngiadau risg, amcanion buddsoddi arian dan reolaeth yw darparu amddiffyniad rhag chwyddiant; cynhyrchu lefel gymharol fach o elw; ac arallgyfeirio ein harian i leihau'r risg o golled cyfalaf a/neu reffeniw. Ein cyfradd elw darged ar gronfeydd a fuddsoddwyd o dan reolaeth yw chwyddiant (CPI) a 2% dros gyfnod treigl o bum mlynedd.

Polisi buddsoddi cynaliadwy

Rydym wedi mabwysiadu dull buddsoddi moesegol cynhwysfawr. Credwn y byddai buddsoddi mewn rhai cwmnïau neu sectorau yn gwrthdaro â'n nodau elusennol neu'n gallu achosi niwed i enw da. Nid ydym yn dymuno elwa'n uniongyrchol o weithgareddau sy'n sylweddol anghyson â'n nodau elusennol, na darparu cyfalaf iddynt, ac felly rydym yn eithrio'n benodol fuddsoddiad mewn cwmnïau sy'n cael mwy na 5% o reffeniw drwy dybaco (gan gynnwys fêpio), alcohol, adloniant i oedolion, gamblo, benthyca llog uchel, a thywod olew a glo thermol. Rydym hefyd yn eithrio pob cwmni sy'n gysylltiedig mewn unrhyw ffordd ag arfau clwstwr a ffrwydron tir.

Yn ein portffolios, rydym hefyd yn ceisio hyrwyddo nodweddion amgylcheddol neu gymdeithasol da neu eu gwella, ar yr amod bod y cwmnïau y buddsoddir ynddynt yn dilyn arferion llywodraethu

da. I gydnabod yr argyfwng hinsawdd, rhaid i reolwyr asedau sy'n cynrychioli'r GMC fod â pholisi sero net credadwy ac adrodd ar gynnydd o ran y polisi hwnnw i'r Pwyllgor Buddsoddi bob blwyddyn.

Rydym yn buddsoddi dim ond drwy reolwyr cronfeydd sy'n dangos y cymwysterau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) cryfaf ac sy'n gallu adrodd am eu gweithgareddau a'u dull monitro ESG.

Nod ein dull o fuddsoddi yw sicrhau effaith gadarnhaol drwy newid ymddygiad cwmnïau er gwell drwy berchnogaeth weithredol. Disgwylwn i gwmnïau yr ydym yn buddsoddi ynddynt ddangos arferion cyfrifol o ran cyflogaeth a llywodraethu corfforaethol, i fod yn gydwytbodol o ran materion amgylcheddol a chymdeithasol, ac i ddelio'n deg â chwsmeriaid a'r cymunedau lle maent yn gweithredu. Wrth benodi rheolwyr cronfeydd, rydym yn ystyried sut maent yn ymgorffori asesiad o berfformiad cwmni ar faterion ESG yn eu dewis stoc yn ogystal â sut maent yn ymgysylltu ac yn dylanwadu ar y cwmnïau maent yn buddsoddi ynddynt i wella eu cynaliadwyedd dros amser.

Rydym hefyd yn sicrhau bod eu trefniadau monitro'n tynnu sylw at gwmnïau sy'n destun ymchwiliad ar gyfer osgoi trethi neu wyngalchu arian, neu sydd wedi eu cael yn euog o hynny.

Fe wnaethom ddewis CCLA Investment Management (CCLA) i reoli ein buddsoddiadau oherwydd eu henw da a'u safonau uchel o ran buddsoddi moesegol. Mae CCLA yn buddsoddi mewn ffordd sy'n blaenoriaethu ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu, gan weithio gyda chwmnïau i'w hannog i ymrwymo i gynhyrchu cynnyrch iachach, sy'n fwy hygyrch ac yn fwy fforddiadwy.

Adenillion buddsoddiadau

Roedd ein cronfeydd dan reolaeth yn werth £62.7 miliwn ar ddiwedd 2025, o'i gymharu â £61.9 miliwn ar ddechrau'r flwyddyn. Ers cynyddu'r cronfeydd dan reolaeth i £50 miliwn ym mis Mehefin 2019, rydym wedi cynhyrchu enillion ar gyfradd twf blynyddol uwch o 3.57%, gan roi hwb i werth y cronfeydd dan reolaeth i £62.7 miliwn.

Mae unrhyw arian nad yw'n cael ei ddal fel cyfalaf gweithio neu ei fuddsoddi yn cael ei gadw mewn adneuon tymor canolig a/neu gyfrifon â llog. Fe wnaethom ddiwygio ein polisi buddsoddi yn 2025, ac mae bellach yn cynnwys y defnydd o gronfeydd adneuo cyffredin. Mae hyn yn ein galluogi ni i leihau'r risg o fethiant banc yn ein daliadau arian parod, gan wella hylifedd ac enillion ar yr un pryd.

Fe wnaethon ni gynhyrchu llog o £2.3 miliwn ar ein balansau arian parod, sy'n cyfateb i gyfradd enillion flynyddol gyfartalog o 3.72%. Dangosir arian a ddelir fel cyfalaf gweithio, ac unrhyw arian parod sy'n weddill, ar ein mantolen o fewn yr asedau cyfredol.

GMC Services International (GMSCI) Limited

Ymgorfforwyd is-gwmni masnachu GMCSI fel cwmni preifat cyfyngedig drwy gyfranddaliadau ar 16 Rhagfyr 2016. Mae'n is-gwmni dan berchnogaeth lwyr y GMC sy'n defnyddio gwybodaeth a gafwyd o weithgareddau craidd y GMC i ddarparu gwasanaethau ar sail fasnachol, gan gynnwys ymgynghori, hyfforddi ac achredu. Mae unrhyw elw sy'n deillio o'r gweithgareddau hyn yn cael ei roi'n ôl i'r GMC er mwyn cyflawni nodau elusennol y GMC.

Buddsoddodd y GMC £0.6 miliwn fel cyfalaf cyfranddaliad yn GMCSI. Yn ei flynyddoedd cynnar o weithredu, mae GMCSI wedi cynhyrchu colledion net

ond wedi gallu cynhyrchu elw bach yn ddiweddar. Yn 2025, cynhyrchodd GMCSI elw net o £46,000 a daeth y flwyddyn i ben gydag asedau net o £403,000. Nid oes unrhyw elw wedi cael ei roi yn gymorth rhodd yn ôl i'r GMC yn 2025. Rhagwelir y bydd GMCSI yn cynhyrchu elw yn y tymor canolig.

Mae'r cyfrifon a gyflwynir yma yn gyfrifon grŵp cyfunol sy'n cynnwys ein his-gwmni masnachu GMCSI. Mae'r datganiad o weithgareddau ariannol yn dangos y sefyllfa gyfunol ar gyfer y GMC a GMCSI gyda'i gilydd. Mae'r fantolen yn dangos colofnau ar wahân ar gyfer sefyllfa'r grŵp (GMC a GMCSI gyda'i gilydd) a sefyllfa'r rhiant-elusen (GMC). Paratowyd cyfrifon cwmni ar wahân ar gyfer GMCSI.

Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr dros y datganiadau ariannol

Mae ein hymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol ac Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig). Mae'r gyfraith sy'n berthnasol i elusennau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen a'r grŵp, ac o adnoddau a ddaw i law a'r defnydd a wneir o adnoddau'r grŵp am y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- dewis polisiau cyfrifyddu addas ac yna eu rhoi ar waith yn gyson
- cadw at y dulliau a'r egwyddorion yn y Datganiad o Arferion Cymeradwy ar gyfer Elusennau (SORP)
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, a bod unrhyw wyriadau o bwys yn cael eu datgelu a'u hegluro yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol (oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau ar y sail honno).

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion yr elusen, ac i ddatgelu, gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol yr elusen, ac yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008, Deddf Elusennau a Buddsoddiad Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005, Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006 (fel y'u diwygiwyd), Cyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Feddygol 1983 a darpariaethau cyfansoddiad yr elusen. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen a'r grŵp ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Trafodion partïon cysylltiedig

Rydym yn mynnu bod pob ymddiriedolwr ac uwch reolwr yn datgelu manylion unrhyw sefydliad y mae ganddynt hwy (ac aelodau agos o'u teulu a phartneriaid busnes) swydd o awdurdod neu fuddiant perthnasol arall ynddo, ac y gallai eu busnes ddod â hwy i gysylltiad ariannol â'r GMC. Rhaid datgelu manylion unrhyw drafodion gwirioneddol rhwng y GMC a phartïon cysylltiedig yn ystod y flwyddyn hefyd. Rydym hefyd yn cyhoeddi [cofrestr o fuddiannau](#) ar ein gwefan.

Yn 2025 cafodd yr holl ddatgeliadau eu gwneud ac nid oedd unrhyw bryder.

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg (ARC) yn chwarae rhan allweddol yn ein gwaith llywodraethu. Mae'n rhoi sicrwydd annibynnol i'r Cyngor ynghylch:

- cywirdeb ein datganiadau ariannol
- effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol, llywodraethu a rheoli risg
- darparu gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol.

Mae hefyd yn monitro ein polisiau gwrth-dwyll, a ehangwyd gennym eleni wrth i Ddeddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023 ddod i rym; unrhyw risgiau sy'n ymwneud â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data; ac mae'n adolygu trefniadau ar gyfer codi pryderon.

Mae'r Pwyllgor yn seilio ei gyngor a'i benderfyniadau ar ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol, y Comisiwn Elusennau, Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban a, lle bo hynny'n briodol, cyngor allanol annibynnol.

Mae gan y Pwyllgor saith aelod: pum aelod o'r Cyngor a dau aelod cyfetholedig. Mae aelodau cyfetholedig yn gwella gwaith y Pwyllgor drwy ddod â sgiliau a phrofiad ychwanegol gwerthfawr i'r broses annibynnol o graffu ar gyllid, risg a llywodraethu. Mae pob aelod o'r Pwyllgor yn cymryd rhan mewn proses arfarnu flynyddol.

Penodwyd Vanessa Davies yn Gadeirydd y pwyllgor pan ymddiswyddodd Paul Knight ddiwedd 2024. Dymuna'r Cyngor ddiolch i Paul am ei wasanaeth i'r Pwyllgor ac i'r GMC.

Mae'r Pwyllgor yn ymgymryd â rhaglen waith flynyddol sy'n canolbwyntio ar risg. Mae'r Gofrestr Risg a Chyfleoedd Corfforaethol (CORR) yn cofnodi'r prif risgiau strategol a gweithredol rydym yn eu rheoli. Mae gwaith goruchwyllo a chraffu'r Pwyllgor yn chwarae rhan werthfawr o ran sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol a bod cyfleoedd yn cael eu gwella drwy systemau llywodraethu effeithiol, rheolaeth fewnol a threfniadau rheoli risg.

Yn 2025, cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor ar unwaith am y materion brys neu'r materion sy'n dod i'r amlwg a drafodwyd ganddo. Hefyd, cyflwynwyd dau adroddiad ffurfiol i'r Cyngor ar waith y Pwyllgor.

Fel rhan o'i raglen waith ar gyfer 2025, cafodd yr aelodau gyfle i ddysgu mwy am feysydd penodol o'r busnes a'u risgiau cysylltiedig mewn sesiynau seminar a drefnwyd cyn pob cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a risg. Eleni, roedd y rhain yn cynnwys ystyriaethau risg a sicrwydd mewn perthynas â'r strategaeth gorfforaethol newydd ar gyfer 2026-2030, datblygu ein system Cynllunio Adnoddau Menter newydd a'n rhaglen *Dyfodol addysg a datblygu gyrfa*.

Gweithgareddau allweddol yn ystod 2025

Yn ystod 2025, dilynodd y Pwyllgor raglen arfaethedig o waith, a oedd yn cynnwys:

- ystyried a chymeradwyo cynllun archwilio mewnol blynyddol 2025 ac adnoddau cysylltiedig
- cael barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2024,* a oedd yn rhoi sicrwydd sylweddol bod y systemau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol a oedd ar waith yn ystod y flwyddyn wedi cael eu dylunio'n dda ar y cyfan ac yn gweithio'n effeithiol i sicrhau bod amcanion y GMC yn cael eu cyflawni
- craffu ar 12 darn o waith archwilio mewnol ac adrodd, a oedd yn dangos ymhellach bod systemau rheolaeth fewnol cadarn ar waith yn gyffredinol yn y GMC
- monitro'r gwaith o weithredu argymhellion a wnaed mewn adroddiadau archwilio blaenorol i wneud yn siŵr eu bod yn cael sylw effeithiol, a gadarnhawyd gan adolygiad ffurfiol o gynnydd gweithredu gan ein Harchwilwyr Mewnol
- goruchwyllo'r adolygiad blynyddol o'r Siarter Archwilio Mewnol
- cefnogi'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Archwilio Mewnol newydd
- adolygu'r copi drafft o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Ymddiriedolwyr 2024 a'r adroddiadau cenedlaethol drafft ar gyfer Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban
- cymeradwyo telerau ymgysylltu, cynllun, cwmpas a ffi'r archwilydd allanol ar gyfer cyfrifon 2025
- adolygu perfformiad yr archwilwyr mewnol ac allanol. Ar gyfer yr archwilwyr mewnol, roedd hyn yn cynnwys monitro cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Gwella Sicrhau Ansawdd blynyddol y cytunwyd arno
- craffu ar y Fframwaith Sicrwydd Busnes, sy'n mapio prif ffynonellau sicrwydd y sefydliad ac a oes unrhyw fylchau
- cael gafael ar *Adroddiad Blynyddol y Gwarcheidwad Rhyddid i Siarad 2024*,† *Adroddiad Blynyddol y Swyddog Diogelu Data 2024*, a'r *Adroddiad Diogelu Blynyddol 2024*
- adolygu'r canllawiau diwygiedig a'r trefniadau awdurdod dirprwyedig mewn perthynas ag adolygiadau o ddigwyddiadau arwyddocaol ac adrodd i'r Comisiwn Elusennau
- craffu ar y Fframwaith Rheoli Risg diwygiedig i'w ystyried ymhellach a'i gymeradwyo gan y Cyngor
- adolygu ei Ddatganiad o Ddiben.

Yn ogystal â'r uchod, ym mhob un o'i gyfarfodydd mae'r Pwyllgor hefyd:

- yn dechrau pob cyfarfod gyda thrafodaeth ddi-sgript o risgiau a materion sy'n dod i'r amlwg ac yn clywed gan uwch reolwyr sut mae'r rhain yn cael eu rheoli (mae hyn yn cynnwys risgiau sy'n cael eu sbarduno gan ddigwyddiadau allanol yn ogystal â'r rhai sy'n codi mewn perthynas â rhedeg busnes y GMC yn gyffredinol)
- yn ystyried y Gofrestr Risgiau a Chyfleoedd Corfforaethol (mae hon ar gael fel rhan o [bapurau'r Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor](#) a gyhoeddir ar ein gwefan ac mae'n cael ei diweddarau'n rheolaidd).

* Ar gyfer asesiad y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2024, gweler [Papurau'r Cyngor, Mehefin 2025](#).

† Ar gyfer Adroddiad Blynyddol y Gwarcheidwad Rhyddid i Siarad ar gyfer 2024, gweler [Papurau'r Cyngor, Mehefin 2025](#).

Rheoli risg

Mae rheoli risg yn effeithiol yn rhywbeth sydd wedi'i wreiddio yn ein diwylliant a'n ffyrdd o weithio.

Mae'n flaenllaw pan fyddwn yn ysgrifennu polisiau ac yn gwneud penderfyniadau. Mae'r broses rheoli risg yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ein strategaeth gorfforaethol a'n swyddogaethau statudol. Mae'n rhan bwysig o'n gwaith cynllunio busnes, ac mae'n ein helpu i nodi risgiau yn y ffordd rydym yn rheoleiddio mewn perthynas â chleifion, meddygon, cymdeithion meddygol, cymdeithion anaesthesia, y rhai hynny sy'n cael hyfforddiant, a'r cyhoedd. Yn y GMC, rydym yn credu bod pawb yn gyfrifol am risg.

Rydym wedi sefydlu Fframwaith Rheoli Risg, sy'n dwyn ynghyd ein hegwyddorion risg cyffredinol, ein datganiadau parodwydd i dderbyn risg a'n canllawiau ymarferol ar sut y dylid rheoli, uwchgyfeirio ac isgyfeirio risgiau. Mae hyn yn sicrhau ein bod:

- â barn gyffredin am y cyfleoedd a'r bygythiadau i'n nodau a'n hamcanion ar draws y sefydliad
- yn gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch ble i flaenoriaethu ein ffocws wrth ddyrannu adnoddau
- yn mynd ati i gyflwyno gweithgareddau mewn ffordd gyson ac ystyriol ar draws timau a phrosiectau.

Rydym yn rheoli cyfleoedd yn ogystal â bygythiadau, sydd â'r budd posibl yn y tymor canolig a'r tymor hwy i gryfhau diogelwch cleifion a'r cyhoedd.

Mae Rheolwr Risg yn ei swydd, gyda chyfrifoldeb ac atebolrwydd clir dros sicrhau bod y Fframwaith Rheoli Risg yn cael ei wreiddio ar draws y sefydliad. Mae Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd yn asesu effeithiolrwydd cyffredinol ein prosesau rheoli risg. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi dirprwyo awdurdod i roi sicrwydd i'r Cyngor bod trefniadau rheoli risg yn gadarn ac yn gweithio'n ymarferol.

Ar ôl ymgysylltu helaeth yn 2025, fe wnaethom ddiweddarau'r Fframwaith Rheoli Risg, gan gynnwys ein dull o ymdrin ag archwaeth am risg, a chyflwyno categorïau newydd o risg sy'n fwy cydnaws â'n ffyrdd presennol o weithio. Cafodd hwn ei lansio ym mis Mai 2026.

Mae gwydnwch busnes, a'r gallu i ymateb ac addasu i ddigwyddiadau, boed yn rhai gweithredol neu enw da hefyd yn nodweddion o reoli risg yn gadarn. Mae gan y GMC gyfres gynhwysfawr o brosesau parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb, a threfniadau ar gyfer rheoli materion enw da.

Caiff y rhain eu profi drwy ymarferion yn rheolaidd, ac mae rhai wedi cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â digwyddiadau go iawn yn ystod 2025.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried y Gofrestr Risgiau a Chyfleoedd Corfforaethol ym mhob cyfarfod, ac mae'r gofrestr yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor. Mae'r gofrestr yn ystyried risgiau sy'n cael eu hwynebu wrth gyflawni ein themâu corfforaethol strategol (sy'n rhywbeth yr ydym yn eu hystyried yn hanfodol i reoli a chyflawni ein hamcanion yn llwyddiannus). Mae hefyd yn ystyried bygythiadau gweithredol a bygythiadau i raglenni sydd wedi'u uwchgyfeirio trwy ein strwythur risg ac sy'n arwyddocaol ar lefel gorfforaethol. Mae'r Gofrestr Risgiau a Chyfleoedd Corfforaethol llawn ar gael fel rhan o [bapurau'r Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor](#) a gyhoeddir ar ein gwefan ac sy'n cael ei diweddarau'n rheolaidd). Mae crynodeb o wybodaeth am ein risgiau mwyaf arwyddocaol a sut mae'r rhain yn cael eu rheoli wedi'i nodi isod.

Risg	Rheolaethau allweddol
Cyflawni swyddogaethau statudol Os na fyddwn yn cyflawni ein swyddogaethau statudol craidd, mae effaith bosibl ar ddiogelwch cleifion, hyder y cyhoedd, ac enw da'r GMC	• Monitro ac adrodd yn erbyn darpariaeth statudol i'r Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor. • Mae rhagweld y galw gweithredol yn rhan annatod o'r cynllunio cyllidebol. • Ymgysylltu'n weithredol â rhanddeiliaid a chofrestryddion. • Cyfnewid gwybodaeth gydag awdurdodau cymwys i lywio prosesau. • Gwelliant parhaus o brosesau wedi'u dogfennu, gweithdrefnau a chanllawiau ategol.
Argaeledd adnoddau Os na fyddwn yn sicrhau ac yn cadw adnoddau priodol ac addasadwy, gan gynnwys ein gweithlu, ein systemau a'n cyllid, gall hyn effeithio ar gyflawni ein swyddogaethau statudol	• Nod y strategaeth arweinyddiaeth ac arferion pobl yw denu a chadw gweithlu o safon uchel. • Polisiâu a gweithdrefnau cynhwysfawr, gan gynnwys twyll a diogelwch. • Trin a rheoli arian yn gadarn, wedi'i gefnogi gan brofion straen rheolaidd. • Adrodd rheolaidd a thrylwyr ar berfformiad. • Buddsoddiad parhaus yn ein seilwaith, systemau a diogelwch TG, gan gynnal achrediad ISO27001. • Systemau dyblygu a chadw copïau wrth gefn ar waith ar gyfer seilwaith TG hanfodol.
Cydymffurfio â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (ED&I) Os nad yw ein mesurau i sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn ddigonol, rydym mewn perygl o her gyfreithiol a hyder gwan yn ein rheoleiddio	• Tîm ED&I medrus yn darparu cyngor strategol ar draws y sefydliad. • Amcanion a thargedau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ED&I yn cael eu monitro'n rheolaidd. • Rhaglen hyfforddi orfodol i'r holl staff a chydweithwyr.
Y gallu i weithio gydag eraill Os na allwn gydweithio â'n partneriaid allanol, efallai y byddwn yn lleihau ein heffaith ar ddiogelwch cleifion a'r rhai hynny rydym yn eu rheoleiddio	• Cynlluniau cynhwysfawr ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a chynnal perthynas â hwy. • Rhyngweithio â chyrff rheoleiddio eraill i nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio ac alinio. • Ymgysylltu rhagweithiol ar bob polisi a mater pwysig, gan gynnwys ymgysylltu'n weithredol â phedair llywodraeth y DU ynghylch dyfodol ein deddfwriaeth. • Gwerthuso ac adborth rheolaidd.
Ymateb i amgylchedd sy'n newid Os na allwn ymateb yn effeithiol i newidiadau yn yr amgylchedd allanol, rydym mewn perygl o leihau ein dylanwad a'n perthnasedd, ac wynebu hyder gwan yn ein rôl	• Ymgysylltu rhagweithiol, ar lefel uwch, â rhanddeiliaid i ddeall eu hagendâu. • Cyfrannu at systemau a chynlluniau'r llywodraeth ar draws y pedair gwlad. • Tîmau allgymorth wedi'u strwythuro i gynorthwyo dealltwriaeth a dylanwad mewn systemau cenedlaethol a lleol. • Monitro parhaus o'n hamgylchedd allanol. • Mecanweithiau i rannu a gwerthuso'r mewnwelediadau a'r wybodaeth yr ydym yn eu cael.

Risg	Rheolaethau allweddol
Digwyddiad annisgwyl Os bydd ein systemau'n cael eu peryglu neu os bydd ein gweithgareddau'n cael eu herio'n gyhoeddus, gallai hyn effeithio ar gyflawni swyddogaethau sy'n ganolog i ddiogelwch cleifion ac achosi niwed i enw da	- Polisiau a gweithdrefnau rheoli argyfwng a chynlluniau ymateb brys sy'n gadarn ac yn cael eu profi'n rheolaidd. - Strwythur parhad busnes wedi'i sefydlu gyda hyrwyddwyr ar draws y sefydliad. - E-ddysgu gorfodol ar gyfer pob cydweithiwr. - Hyfforddiant ac ymarferion blynyddol i bawb sy'n ymateb i ddigwyddiadau. - Monitro rhagweithiol parhaus o'r amgylchedd allanol. - System rheoli iechyd a diogelwch.
Diwygio rheoleiddio - manteision Mae risg nad ydym yn sicrhau nac yn cyflawni'r ystod lawn o fanteision y mae'r diwygiadau'n eu cyflwyno	- Rheolaethau llywodraethu a rhaglenni cynhwysfawr. - Gweithio ar draws cyfarwyddiaethau yn rhan annatod o ddull gweithredu'r rhaglen er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd. - Cynllun dylanwadu rhanddeiliaid i wneud yn siŵr ein bod yn sicrhau cefnogaeth allanol ar gyfer newid. - Ymgysylltu parhaus â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gynnal perthnasoedd gwaith da, cydweithio a dylanwad. - Protocolau uwchgyfeirio.
Diffyg yn y pensiwn Gallai anwadalrwydd economaidd gael effaith negyddol ar sefyllfa gyllido'r y cynllun a golygu bod angen am gyfraniadau ychwanegol gan y cyflogwr.	- Ymddiriedolwyr yn cwrdd yn rheolaidd, gyda chefnogaeth ymgynghorwyr proffesiynol. - Cydweithio rhwng y cyflogwr a'r ymddiriedolwyr i sicrhau bod trefniadau cyllido addas ar waith. - Taliadau blynyddol yn cael eu cyllidebu. - Monitro rheolaidd o'r sefyllfa gyllido. - Diweddariad 2025 i bolisi cronfeydd wrth gefn y GMC yn cofnodi cymorth ariannol ar gyfer y cynllun os bydd yna ddigwyddiad gwerth mewn perygl.
Uchelgais strategol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (ED&I) Os nad yw ein camau gweithredu i ddylanwadu ar newid ar draws y system iechyd ac addysg, ac o fewn y GMC, yn cyflawni cynnydd yn gyflym i gyrraedd ein targedau ED&I strategol, mae perygl y byddwn yn cynnal meysydd anghydraddoldeb hysbys	- Targedau clir sydd â therfyn amser i ganolbwyntio ymdrechion ar draws y system. - Arweinwyr Gweithredol enwebedig ar gyfer pob ymrwymiad strategol. - Cynlluniau gweithredu ar waith i gyflawni yn erbyn targedau mewnol ac allanol. - Timau medrus sydd â'r adnoddau priodol yn dylunio ymyriadau. - Adroddiadau cynnydd blynyddol a dwywaith y flwyddyn. - Gwaith craffu gan y Grŵp Llywio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, y Weithrediaeth a'r Cyngor yn caniatáu mireinio cynlluniau mewn ymateb i gynnydd. - Asedau data ac ymchwil i dynnu sylw at faterion a chefnogi galwadau am weithredu.

Risg	Rheolaethau allweddol
Diwygio rheoleiddio - sicrhau trefniadau ar gyfer Gorchymyn y GMC Os na fyddwn yn ymgysylltu'n effeithiol â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mae hyn yn peri problemau ac oedi wrth roi'r Gorchymyn newydd ar waith, neu efallai y bydd yn creu Gorchymyn nad yw'n ymarferol	• Cynllunio trafodaethau gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac adolygu cynlluniau a llwybr critigol yn rheolaidd i osod disgwyliadau realistig ar gyfer cerrig milltir rhaglenni. • Ymgysylltu'n rhagweithiol â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i wneud yn siŵr bod cynlluniau'n aros yn realistig, gan amserlennu'r gwaith yn effeithiol er mwyn lleihau'r effaith ar dimau prysur.
Ansicrwydd ynghylch ein pwyntiau cyswllt a'n hymgysylltiad â GIG Lloegr Gall ansicrwydd effeithio ar effeithiolrwydd rhai o brosesau gweithredol y GMC	• Ymgysylltu parhaus â swyddogion yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a GIG Lloegr. • Perthnasoedd yn cael eu sefydlu gyda'r cyfarwyddwyr cyd-feddygol cenedlaethol newydd yn GIG Lloegr. • Monitro parhaus o ffynonellau allanol. • Ymgysylltu â'r uwch dîm. • Sicrhau aelodaeth y Bwrdd Ansawdd Cenedlaethol ar ran rheoleiddwyr sy'n delio'n uniongyrchol â'r GIG.
System gyllid ac Adnoddau Dynol y GMC Os na allwn fudo ein system Cynllunio Adnoddau Menter (ERP) o fewn yr amserlen ofynnol, efallai y byddwn mewn perygl o weithredu ar systemau nad ydynt yn cael eu cefnogi	• Strwythur a threfniadau llywodraethu ffurfiol y rhaglen. • Ffrydiau prosiect yn cael eu blaenoriaethu a'u hariannu i fodloni'r cynllun, gan gynnwys ôl-lenwi. • Craffu gan y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.
Gweithredu Safonau'r Iaith Gymraeg Parhau i gydymffurfio â'r safonau, mae perygl y bydd hyn yn arwain at oblygiadau cyfreithiol, i enw da ac i gyllid	• Cynllun cymeradwy i wreiddio'r canllawiau, y dysgu a'r prosesau mewn busnes fel arfer. • Creu rhwydwaith o Bencampwyr y Gymraeg. • Y Tîm Adolygu Corfforaethol yn goruchwyllo cwynion. • Partner yn ei le ar gyfer anghenion cyfieithu a chyfieithu ar y pryd.
Darparu arholiadau Asesiad Trwyddedu Meddygol (MLA) Os bydd digwyddiad yn effeithio ar ddarparu'r Asesiad Trwyddedu Meddygol, gallai hyn olygu na fydd y Cymhwyster Meddygol Sylfaenol sy'n cael ei ddyfarnu gan yr ysgol(ion) meddygol yn ddilys	• Cydymffurfiaid Asesiad Trwyddedu Meddygol bellach wedi'i wreiddio yn ein proses ysgolion newydd. • Cysylltiad rheolaidd â'r holl ysgolion a gwirio cynlluniau wrth gefn fel rhan o sicrwydd a goruchwyliaeth arferol. • Cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Cyngor Ysgolion Meddygol i fynd i'r afael â materion.

Risg	Rheolaethau allweddol
Diwygio rheoleiddiol - dull gweithredu yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol o ran drafftio Gorchymyn y GMC Gallai'r dull gweithredu a'r amserlen ar gyfer drafftio olygu nad yw gwallau neu hepgoriadau'n cael eu canfod, gan arwain at Orchymyn nad yw'n ymarferol, neu sy'n methu â sicrhau manteision posibl newid; gallai'r dull gweithredu hefyd arwain at staff yn gorweithio, yn colli cymhelliant neu'n gadael	- Cynnal llinellau cyfathrebu adeiladol ac agored gyda chydweithwyr yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. - Mecanweithiau cefnogi ar gyfer cydweithwyr gan gynnwys oedi gwaith / ôl-lenwi adnoddau. - Mabwysiadu dull adborth cynnar.

Yn ystod y flwyddyn, roedd trafodaethau ehangach y Pwyllgor ar ffactorau risg ar gyfer y GMC yn cynnwys ystyried trefniadau'r GMC i ymateb i adolygiadau allanol, gan ymdrin ag Adolygiad Leng, adolygiad parhaus yr Arglwydd Mann i wrth-semitiaeth a phob math o hiliaeth, ac adolygiadau mamolaeth. Ystyriodd y Pwyllgor hefyd ddiweddariadau ar feddygon â sancsiynau tramor (mynd i'r afael â honiadau yn y wasg) a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chynnydd sylweddol yn nifer y brysbenno yn y gyfarwyddiaeth addasrwydd i ymarfer.

Dysgu o ddigwyddiadau a materion

Elfen o wydnwch sefydliadol yw'r parodrwydd a'r gallu i adolygu a dysgu pan fydd pethau'n dod i'r amlwg yn sydyn neu pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le. Rydym wedi ymrwymo i ddangos diwylliant o welliant parhaus, gan ddysgu nid yn unig o ddigwyddiadau mewnol, ond hefyd drwy ystyried gwersi i'w dysgu a nodir mewn adroddiadau ac adolygiadau a gyhoeddir mewn perthynas â sefydliadau eraill sydd wedi wynebu anawsterau a heriau.

Mae gennym ddull cadarn hefyd o gynnal adolygiadau o ddigwyddiadau sylweddol (SER) os yw rhywbeth yn cael effaith fwy difrifol ar y sefydliad, neu os oes ganddo'r potensial i wneud hynny. Er enghraifft, yn allanol, gallai hyn fod mewn perthynas â gweithredoedd pobl eraill sy'n cael effaith niweidiol ar y GMC, ac yn fewnol gallai hyn fod lle mae rheolaeth sefydliadol allweddol wedi methu.

Yn 2025, cyflwynwyd tri adolygiad o ddigwyddiadau sylweddol yn ffurfiol i'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Yn anffodus, roedd y cyntaf yn ymwneud â meddyg a fu farw drwy hunanladdiad tra'r oedd o dan brosesau addasrwydd i ymarfer y GMC. Roedd y ddau adolygiad o ddigwyddiadau sylweddol arall yn ymwneud ag achosion o dor-diogelwch data, a rhoddwyd gwybod i'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Comisiwn Elusennau amdanynt. Roedd yr achos cyntaf o dorri diogelwch gwybodaeth yn ymwneud â rhannu gwybodaeth ariannol bersonol cofrestrai, ac roedd yr ail yn ymwneud â rhannu gwybodaeth o natur ddiogelu a allai achosi niwed.

Er bod dysgu gwersi o adolygiadau o ddigwyddiadau sylweddol yn hanfodol ar gyfer gwella perfformiad yn y dyfodol, mae gennym lawer o fecanweithiau eraill ar gyfer dysgu a rhannu arferion gwell ar draws y busnes. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ystyried ymchwil allanol ac adroddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd, fel y rhai a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennau neu gan reoleiddwyr eraill, gan gynnwys yr Awdurdod Safonau Proffesiynol
- adroddiadau annibynnol gan aseswyr allanol fel Buddsoddwyr mewn Pobl, y Sefydliad Safonau Rhyngwladol, y Sefydliad Safonau Prydeinig a'r Sefydliad Gwasanaethau Cwsmeriaid
- cyswllt rheolaidd â rheoleiddwyr gofal iechyd eraill
- adolygiadau gan gymheiriaid ac ymarferion rheoli ansawdd timau lleol ac archwiliadau a gynhaliwyd gan ein tîm Sicrhau Ansawdd corfforaethol mewnol
- adolygiadau ôl-weithredu o fentrau a phrosiectau newydd
- cymuned ymarfer i rannu profiadau o reoli prosiectau a chefnogi newid
- dealltwriaeth ehangach o waith archwilio mewnol.


Ein gwaith yn 2026

Mae gan y Pwyllgor raglen waith lawn ar gyfer 2026, gyda risg a sicrwydd yn parhau i fod yn brif ffocws y gweithgareddau sydd wedi eu cynllunio. Yn ogystal â chraffu ar yr adroddiadau o'r rhaglen archwilio mewnol a gymeradwywyd ganddo ym mis Ionawr 2026, ac Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr ymddiriedolwyr 2025, bydd yn cymryd amser i wneud y canlynol:

- cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Fframwaith Rheoli Risg diwygiedig, gan ystyried hefyd drefniadau'r GMC ar gyfer sganio'r gorwel risg a nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg
- goruchwyllo datblygiad pellach y Fframwaith Sicrwydd Busnes i gysylltu hyn yn agosach ag archwaeth risg
- ymgymryd â thendr ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol
- parhau i sicrhau ei hun bod risgiau'n cael eu deall a'u rheoli wrth gyflawni newid, gan gynnwys diwygio rheoleiddio, a'r system cynllunio adnoddau menter newydd a fydd yn dod yn weithredol yn ystod 2026.

Fodd bynnag, bydd y Pwyllgor yn parhau i fod yn hyblyg yn ei waith i sicrhau ei fod yn gallu ystyried ac ymateb i fygythiadau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg.

Cymeradwywyd gan yr ymddiriedolwyr ar 1 Gorffennaf 2026 ac fe'i llofnodwyd ar eu rhan gan:



Yr Athro Fonesig Carrie MacEwen

Adroddiad yr archwilwyr annibynnol i ymddiriedolwyr y GMC

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Meddygol Cyffredinol ('yr elusen') a'i is-gwmni ('y grŵp') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2025, sy'n cynnwys y Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen Cyfunol a'r Fantolen Rhiant, Datganiad Llif Arian Cyfunol a nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys polisiau cyfrifyddu sylweddol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, sef y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r grŵp a'r rhiant elusen ar 31 Rhagfyr 2025 ac o'r adnoddau a dderbyniodd y grŵp a'i ddefnydd o'r adnoddau, yn cynnwys ei incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig;
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 a Deddf Buddsoddi Elusennau ac Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005 a rheoliadau 6 ac 8 Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006.

Sail y farn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y Deyrnas Unedig a'r gyfraith berthnasol. Caiff ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran yn ein hadroddiad ar gyfrifoldebau'r Archwilydd wrth archwilio'r datganiadau ariannol. Rydym yn annibynnol ar y grŵp yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio rydym wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail i'n barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i wneud, nid ydym wedi gweld dim ansicrwydd o bwys yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf, o'r dyddiad pan roddir awdurdod i'r datganiadau ariannol gael eu cyhoeddi.

Caiff ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol yn yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am y wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol, ar wahân i'r datganiadau ariannol a'n hadroddiad ni fel archwilydd. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall, ac nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad ynghylch sicrwydd mewn perthynas â'r wybodaeth honno.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad, neu yr ymddengys fel arall eu bod wedi eu camddatgan yn sylweddol. Os byddwn yn canfod anghysondebau o bwys neu gamddatganiadau o bwys, mae'n rhaid i ni benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddwn, ar sail y gwaith rydym wedi ei wneud, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o bwys yn yr wybodaeth arall hon, mae'n rhaid i ni roi gwybod am y ffaith honno.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennym ddim i adrodd arno mewn perthynas â'r materion canlynol, y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt i chi yn ôl Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 os byddwn o'r farn bod y canlynol yn wir:

- bod yr wybodaeth a roddir yn y datganiadau ariannol yn anghyson mewn unrhyw ffordd o bwys ag adroddiad yr ymddiriedolwyr; neu
- nad yw'r rhiant elusen wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol a phriodol; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nid ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr

Fel yr esboniwyd yn fwy manwl yn y datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a nodir ar dudalen 54, yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am y cyfryw reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn yr ymddiriedolwyr er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol nad ydynt yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed o ganlyniad i dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes gweithredol a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai fod yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r elusen neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddynt ddewis realistig arall ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Rydym wedi cael ein penodi'n archwilydd o dan adran 151 Deddf Elusennau 2011, ac adran 44(1)(c) Deddf Buddsoddi Elusennau ac Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005 ac rydym yn adrodd yn unol â'r Deddfau a'r rheoliadau perthnasol a wnaed neu sy'n cael effaith o danynt.

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (y Deyrnas Unedig) bob amser yn canfod camddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyriar yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae manylion ynghylch i ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll a diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, wedi eu nodi isod.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilydd.

I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Fe wnaethom nodi ac asesu'r risgiau o gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol oherwydd afreoleidd-dra, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a thrafod y rhain rhwng aelodau ein tîm archwilio. Yna, fe wnaethom ddylunio a chynnal gweithdrefnau archwilio a oedd yn ymateb i'r risgiau hynny, gan gynnwys cael tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail i'n barn.

Cawsom ddealltwriaeth o'r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r elusen a'r grŵp yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar benderfynu ar symiau a datgeliadau sylweddol yn y datganiadau ariannol. Y cyfreithiau a'r rheoliadau a ystyriwyd gennym yn y cyd-destun hwn oedd Deddf Meddygaeth 1983, Deddf Elusennau 2011 a Deddf Elusennau a Buddsoddi gan Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005 ynghyd â SORP Elusennau (FRS102) 2019. Fe wnaethom asesu'r cydymffurfiaid gofynnol â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn fel rhan o'n gweithdrefnau archwilio o ran yr eitemau cysylltiedig yn y datganiad ariannol.

Ar ben hynny, roeddem wedi ystyried darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau eraill nad ydynt yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol ond y gallai fod angen cydymffurfio â nhw er mwyn i'r elusen a'r grŵp allu gweithredu neu osgoi cosb sylweddol. Roeddem hefyd wedi ystyried y cyfleoedd a'r cymhellion a allai fodoli yn yr elusen a'r grŵp ar gyfer twyll. Y cyfreithiau a'r rheoliadau roeddem wedi eu hystyried yn y cyd-

destun hwn ar gyfer gweithrediadau yn y Deyrnas Unedig oedd y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), a deddfwriaeth cyflogaeth.

Mae'r safonau archwilio'n cyfyngu ar y gweithdrefnau archwilio gofynnol er mwyn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn i ymchwilio i'r Ymddiriedolwyr a rheolwyr eraill, ac archwilio gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os yw hynny'n bodoli.

Roeddem hefyd wedi ystyried y cyfleoedd a'r cymhellion ar gyfer twyll a allai fodoli o fewn yr elusen a'r grŵp. Fe wnaethom nodi bod y risg fwyaf o effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol oherwydd afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, o fewn amcangyfrifon sy'n ymwneud â dirywiadau a darpariaethau cyfreithiol, amseru a chydabod incwm GMCSI a rheolwyr yn diystyru rheolaethau. Roedd ein gweithdrefnau archwilio i ymateb i'r risgiau hyn yn cynnwys holi rheolwyr, archwilyr mewnol, y cwnsler cyfreithiol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ynghylch eu dull nodi ac asesu eu hunain o ran risgiau afreoleidd-dra, profi samplau o gyfnodolion, adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarnau, adolygu gohebiaeth reoleiddiol gyda'r Comisiwn Elusennau a darllen cofnodion cyfarfodydd y rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu.

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid archwiliad, mae risg anochel nad ydym efallai wedi dod o hyd i rai camddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol, er ein bod wedi cynllunio a chynnal ein harchwiliad yn briodol yn unol â safonau archwilio. Er enghraifft, po fwyaf pell y mae diffyg chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau (afreoleidd-dra) o'r digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, y lleiaf tebygol yw'r gweithdrefnau cyfyngedig sy'n ofynnol o dan y safonau archwilio o'i ganfod.

Yn ogystal, fel gydag unrhyw archwiliad, roedd risg uwch o beidio canfod afreoleidd-dra, gan

y gallai'r rhain gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgor bwriadol, camliwio neu ddiystyru rheolaethau mewnol. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfio ac ni ellir disgwyl i ni ganfod diffyg cydymffurfio â phob deddf a rheoliad.

Defnyddio ein hadroddiad

Darperir yr adroddiad hwn i ymddiriedolwyr yr elusen yn unig, fel corff, yn unol â Rhan 4 Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 a Rheoliad 10 Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006. Mae ein gwaith archwilio wedi cael ei wneud er mwyn i ni allu datgan i ymddiriedolwyr yr elusen y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan wrthynt mewn adroddiad archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros unrhyw un heblaw'r elusen ac ymddiriedolwyr yr elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn nac am y farn a luniwyd gennym.


Crowe U.K. LLP

Crowe U.K. LLP
Statutory Auditor
London

Dyddiad: 8 Gorffennaf 2026

Mae Crowe U.K. LLP yn gymwys i'w benodi'n archwilydd yr elusen yn rhinwedd ei gymhwysedd i gael ei benodi'n archwilydd cwmni o dan adran 1212 Deddf Cwmnïau 2006.

Cyfrifon 2025



Datganiad cyfunol o weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2025

			Fel y'i hailddatganwyd		
		Cronfeydd anghyfyngedig	Cronfeydd cyfyngedig	Cyfanswm 2025	Cyfanswm 2024
Nodyn		£'000	£'000	£'000	£'000
Incwm					
O weithgareddau elusennol					
Cofrestru	2	159,486	-	159,486	154,549
Cofrestru meddygon teulu ac arbenigol	2	6,541	-	6,541	5,997
Ailddilysu	2	269	-	269	225
Gweithgareddau masnachu eraill	3	253	-	253	284
Gweithrediadau masnachu masnachol	3	427	-	427	410
Buddsodiadau	3	2,304	-	2,304	2,531
Cyllid yr Adran Iechyd - rheoleiddio cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia	3	-	1,710	1,710	3,106
Arall	3	558	-	558	141
Cyfanswm yr adnoddau a dderbyniwyd		169,838	1,710	171,548	167,243
Gwariant					
Codi arian					
Gweithrediadau masnachu masnachol	4	380	-	380	386
Costau rheoli buddsodiadau	4	289	-	289	288
		669	-	669	674
Gweithgareddau elusennol					
Addasrwydd i ymarfer	4	56,181	-	56,181	52,074
Cofrestru ac ailddilysu	4	50,169	-	50,169	50,531
Cysylltiadau allanol	4	20,900	-	20,900	19,610
Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol	4	14,475	-	14,475	14,586
Addysg a safonau	4	15,355	-	15,355	15,330
Cyllid yr Adran Iechyd - rheoleiddio cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia	4	1,365	2,584	3,949	2,685
		158,445	2,584	161,029	154,816
Gwariant arall					
Darpariaeth gyfreithiol	11	(1,204)	-	(1,204)	684
Darpariaeth dadfeiliadau	11	(397)	-	(397)	(162)
		(1,601)	-	(1,601)	522
Cyfanswm gwariant	4	157,513	2,584	160,097	156,012
Gwarged gweithredu		12,325	(874)	11,451	11,231
Enillion net ar fuddsodiadau	8	1,120	-	1,120	573
Incwm net/(Colled net)		13,445	(874)	12,571	11,804

Enillion a cholledion cydnabyddedig eraill

Enillion/(colledion) actiwaraid ar gynllun pensiwn buddion diffiniedig	16	(8,406)	-	(8,406)	11,030
Symudiad net mewn cronfeydd		5,039	(874)	4,165	22,834
Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen		68,104	2,543	70,647	47,813
Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen		73,143	1,669	74,812	70,647

Ymgorfforodd y Cyngor Meddygol Cyffredinol is-gwmni masnachu dan berchnogaeth lwyr ar 16 Rhagfyr 2016 gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaethau ar sail fasnachol gan gynnwys ymgynghori, hyfforddi ac achredu. Mae'r Elusen wedi ei heithrio rhag cyflwyno ei chyfrif elw a cholled heb ei gyfuno.

Symudiad mewn cronfeydd y riant-elusen ar gyfer y flwyddyn yw £4,165,000, gydag is-gwmniau'n cyfrif am £46,000.

Mae ffigurau 2024 wedi'u hailddatgan oherwydd nodwyd yn 2025 fod gormod o incwm wedi'i ryddhau mewn blynyddoedd blaenorol, gan gynnwys yn 2024. Mae incwm o gofrestru yn 2024 wedi gostwng £301,000 ac mae cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen wedi gostwng £2,880,000.

Darparodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyllid yn 2025 i dalu costau rheoleiddio cymdeithion meddygol a chymdeithion anaesthesia. Roedd cyllid yn gyfyngedig o ran natur, ac fe'i gwariwyd yn llawn yn ystod y flwyddyn. Talodd cyfran o gronfeydd y flwyddyn flaenorol am Ddatblygu Systemau TG a, gan fod yr ased yn cael ei ddefnyddio, mae'r dibrisiant yn cael ei ddangos ar y datganiad o weithgareddau ariannol mewn cronfeydd cyfyngedig. Yr effaith net ar gronfeydd y GMC yw £873,000. Bydd balans y cronfeydd cyfyngedig yn lleihau wrth i'r ased gael ei amorteiddio.

Mantolen

			Fel y'i hailddatganwyd		
		2025	2024		
	Nodyn	Grŵp £'000	Elusen £'000	Grŵp £'000	Elusen £'000
Asedau sefydlog					
Asedau sefydlog anniriaethol	6	22,493	22,493	19,151	19,151
Asedau sefydlog diriaethol	7	3,224	3,224	4,412	4,412
Buddsoddiadau	8	62,683	63,086	61,852	62,209
		88,400	88,803	85,415	85,772
Asedau cyfredol					
Dyledwyr a rhagdaliadau	9	37,882	37,948	35,475	35,555
Arian parod a balansau banc		63,098	62,569	61,303	60,817
		100,980	100,517	96,778	96,372
Rhwymedigaethau					
Credydwyr: symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn	10	(97,634)	(97,574)	(98,807)	(98,758)
Asedau / (rhwymedigaethau) cyfredol net		3,346	2,943	(2,029)	(2,386)
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol		91,746	91,746	83,386	83,386
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau	11	(9,364)	(9,364)	(10,965)	(10,965)
Asedau net ac eithrio cynllun pensiwn (rhwymedigaeth)		82,382	82,382	72,421	72,421
Cynllun pensiwn buddion diffiniedig (rhwymedigaeth)	16	(7,570)	(7,570)	(1,774)	(1,774)
Cyfanswm yr asedau net		74,812	74,812	70,647	70,647
Cronfeydd incwm anghyfyngedig		80,713	80,713	69,878	69,878
Cronfeydd incwm cyfyngedig		1,669	1,669	2,543	2,543
Cronfa bensiwn		(7,570)	(7,570)	(1,774)	(1,774)
Cyfanswm y cronfeydd	12, 13	74,812	74,812	70,647	70,647

Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo gan yr ymddiriedolwyr a'u hawdurdodi i'w cyhoeddi ar 1 Gorffennaf 2026. Fe'u llofnodwyd ar ran yr ymddiriedolwyr gan:



Yr Athro Fonesig Carrie MacEwen
Cadeirydd y Cyngor

Mae ffigurau 2024 wedi'u hailddatgan oherwydd nodwyd yn 2025 fod gormod o incwm wedi'i ryddhau mewn blynyddoedd blaenorol, gan gynnwys yn 2024. Credydwyr: mae symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn yn 2024 wedi cael eu cynyddu £2,880,000 ac mae cronfeydd incwm anghyfyngedig wedi cael eu gostwng £2,880,000.

Datganiad llif arian cyfunol

	2025		Fel y'i hailddatganwyd 2024	
	£'000	£'000	£'000	£'000
Llifoedd arian o weithgareddau gweithredol				
Arian parod net a ddarparwyd gan/(a ddefnyddiwyd mewn) gweithgareddau gweithredol (nodyn i isod)		10,841		13,853
Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi				
Difidendau, llog a rhenti o fuddsoddiadau	2,267		2,531	
Prynu eiddo, offer, cyfarpar ac asedau anniriaethol	(11,313)		(9,892)	
Arian parod net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau buddsoddi		(9,046)		(7,361)
Newid mewn arian parod a symiau cyfatebol (nodyn ii isod)		1,795		6,492

Nodyn (i)

Llif arian o weithgareddau gweithredol		
Adnoddau net (yn mynd allan)/sy'n dod i mewn	12,571	11,804
Incwm a llog ar fuddsoddiadau	(2,304)	(1,988)
Symudiad buddsoddi net	(831)	(279)
Eitemau anariannol - dibrisiant ac amorteiddiad	9,073	7,744
Eitemau anariannol - asedau wedi eu dileu	87	22
Cyfraniad cynllun pensiwn	(2,574)	(3,572)
(Cynnydd)/gostyngiad mewn dyledwyr	(2,407)	(4,500)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr a darpariaethau	(2,774)	4,622
Arian parod net a ddarparwyd gan/(a ddefnyddiwyd mewn) gweithgareddau gweithredol	10,841	13,853

Nodyn (ii)	Arian parod yn y banc ac mewn llaw	Cyfanswm
	£'000	£'000
Arian parod a symiau cyfatebol		
Balansau ar 1 Ionawr 2025	61,303	61,303
Cynnydd net mewn arian parod a symiau cyfatebol	1,795	1,795
Balansau ar 31 Rhagfyr 2025	63,098	63,098

Mae ffigurau 2024 wedi'u hailddatgan oherwydd nodwyd yn 2025 fod gormod o incwm wedi'i ryddhau mewn blynyddoedd blaenorol, gan gynnwys yn 2024. Mae'r adnoddau net (yn mynd allan)/sy'n dod i mewn wedi gostwng £301,000 ac mae cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr a darpariaethau wedi cynyddu £301,000.

Nodiadau i'r cyfrifon

Gwybodaeth gyffredinol

Rydym yn gorff statudol a lywodraethir gan Ddeddf Feddygol 1983 ac rydym wedi cofrestru gyda Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr (1089278), a gyda Swyddfa Rheoleidiwr Elusennau'r Alban (SC037750).

1. Prif bolisiau cyfrifyddu

(i) Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol i roi darlun 'gwir a theg' ac maent wedi gwyro oddi wrth Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 dim ond i'r graddau sy'n ofynnol i ddarparu barn 'gwir a theg'. Mae'r gwyriad hwn wedi golygu dilyn y SORP Elusennau (FRS 102) a gyhoeddwyd am y tro cyntaf ar 16 Gorffennaf 2014, ac a ddiweddarwyd ar 1 Hydref 2019.

Paratowyd ein datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol ac yn unol â'r Datganiad o Arferion Cymeradwy ar gyfer Elusennau (FRS 102), a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2019, sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon, Deddf Elusennau 2011, Deddf Buddsoddi Elusennau ac Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005, Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006 a'r Arferion a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig fel y mae'n berthnasol o 1 Hydref 2019. Fel y nodir yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr, mae'r Ymddiriedolwyr yn dal o'r farn bod y GMC yn fusnes gweithredol ac nad oes ansicrwydd o bwys yn gysylltiedig â digwyddiadau neu amodau sy'n bwrw amheuaeth sylweddol ar ein sefydlogrwydd ariannol yn y dyfodol agos.

Mae'r GMC yn bodloni'r diffiniad o endid budd cyhoeddus o dan FRS 102.

(ii) Ar 16 Rhagfyr 2016, roedd y GMC wedi ymgorffori is-gwmni masnachu, GMC Services International LTD, rhif cwmni 10530157, sy'n

eiddo'n llwyr drwy gyfalaf cyfranddaliadau i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

(iii) Nid yw datganiad ar wahân o weithgareddau ariannol wedi ei gyflwyno ar gyfer yr elusen ar wahân gan nad ystyrir bod hyn yn sylweddol wahanol i'r datganiad o weithgareddau ariannol cyfunol (SOFA). Ar gyfer y rhiant elusen, dangosir y symudiad net mewn cronfeydd o dan y SOFA, gyda gweithgareddau masnachol ein his-gwmni yn cael eu nodi ar wahân ar wyneb y SOFA ar dudalen 70..

(iv) Mae'r prif bolisiau cyfrifyddu a fabwysiadwy wrth baratoi'r datganiadau ariannol, sydd wedi cael eu cymhwyso'n gyson, wedi eu nodi isod.

Adnoddau sy'n dod i mewn

Mae incwm yn cael ei gynnwys yn y datganiad gweithgareddau ariannol pan fydd yr holl feini prawf canlynol yn cael eu bodloni.

- Hawlogaeth – mae rheolaeth dros yr hawliau neu fynediad arall at y budd economaidd wedi ei drosglwyddo i'r GMC
- Tebygolrwydd - mae'n fwy tebygol na pheidio y bydd y budd economaidd yn llifo i'r GMC
- Mesur – gellir mesur y gwerth yn ddibynadwy.

Mae'r polisiau penodol canlynol yn berthnasol:

- Mae ffioedd cadw blynyddol yn ymwneud â gwasanaethau sy'n gysylltiedig â rheoleiddio dros gyfnod o 12 mis, gan ddechrau ar ddyddiad adnewyddu'r ffi cadw blynyddol. Mae incwm yn cael ei ohirio a'i ryddhau i'r datganiad gweithgareddau ariannol ar sail llinell syth yn ystod y cyfnod y mae'r incwm yn berthnasol iddo.
- Cydnabyddir ffioedd cofrestru, gan gynnwys ffioedd cofrestru dros dro, pan ganiateir cofrestriad.
- Mae ffioedd y Bwrdd Asesiadau Proffesiynol

ac leithyddol (PLAB) yn cael eu cydnabod pan fydd yr arholiadau'n cael eu sefyll.

- Caiff incwm o fuddsoddiadau a chronfeydd a ddelir ar flaendal ei gydnabod pan fydd yn dderbyniadwy a gellir mesur y swm yn gywir.

Caiff yr holl incwm ei gydnabod ar sail gros.

Sail cydnabod rhwymedigaethau

Mae'r gwariant yn cynnwys costau staffio, costau swyddfa, costau pwyllgorau, costau cyfreithiol, costau llety, prynu asedau, a chostau ariannol, actiwaraid a phroffesiynol.

Mae adnoddau a wariwyd wedi eu cynnwys yn y datganiad o weithgareddau ariannol ar sail gronnus.

Caiff yr holl rwymedigaethau eu cydnabod cyn gynted ag y bydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol yn ymrwymo'r elusen i wariant.

Sail ar gyfer dyrannu adnoddau a wariwyd

Mae'r rhan fwyaf o'n hadnoddau'n cael eu gwario'n uniongyrchol er mwyn cyflawni ein nodau elusennol, ac fe'u nodir felly yn y datganiad o weithgareddau ariannol.

Mae costau llety, costau llywodraethu a chostau cymorth eraill yn cael eu dosrannu i weithgareddau elusennol ar sail cyfrif pennau staff ar draws y sefydliad.

TAW na ellir ei hadennill

Mae unrhyw TAW na ellir ei hadennill yn cael ei gynnwys yn y datganiad o weithgareddau ariannol fel rhan o'r eitem berthnasol o wariant, neu ei gyfalafu fel rhan o gost yr ased cysylltiedig lle bo hynny'n briodol.

Trethiant

Rydym yn defnyddio eithriadau priodol rhag treth ar incwm ac enillion sydd ar gael i elusennau, felly nid oes unrhyw dreth yn daladwy ar adnoddau net yr elusen sy'n dod i mewn. Mae is-gwmni'r elusen yn ddarostyngedig i Dreth Gorfforaeth yn yr un modd ag unrhyw sefydliad masnachol.

Dyledwyr

Fel arfer, caiff dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill eu cydnabod yn swm y setliad sy'n ddyledus ar ôl unrhyw ddisgownt masnachol a gynigir. Mae rhagdaliadau fel arfer yn cael eu priso ar y swm a dalwyd ymlaen llaw net o unrhyw ddisgowntiau masnachol sy'n ddyledus.

Credydwy'r a darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau

Cydnabyddir credydwy'r a darpariaethau pan fydd gan yr elusen rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol. Maen nhw'n cael eu cydnabod pan fydd hi'n debygol y bydd angen trosglwyddo budd economaidd er mwyn setlo'r rhwymedigaeth a bod modd amcangyfrif yn ddibynadwy beth yw swm y rhwymedigaeth. Fel arfer, caiff credydwy'r a darpariaethau eu cydnabod yn swm eu setliad ar ôl caniatáu ar gyfer unrhyw ddisgowntiau masnachol sy'n ddyledus.

Penderfyniadau cyfrifyddu critigol a ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif

Y prif ffynonellau ansicrwydd amcangyfrif sy'n cael effaith sylweddol ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol yw:

- Adolygir pob hawliad am gostau cyfreithiol a wneir yn erbyn y GMC fesul achos ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r darpariaethau'n seiliedig ar brofiad hanesyddol ac asesiad manwl o fanylion penodol achosion cyfredol. Mae setlo achosion yn derfynol yn dibynnu

ar nifer o ffactorau, felly mae cywirdeb y ddarpariaeth yn destun cryn ansicrwydd.

- Gwneir darpariaethau ar gyfer costau dadfeiliad eiddo ar gyfer pob adeilad ar brydles. Cânt eu hasesu fesul achos gan adlewyrchu'r gwahanol gyfluniadau o adeiladau ar brydles a'r gost o'u dychwelyd i'w cyflwr gwreiddiol. Rydym yn defnyddio codiadau chwyddiant blynyddol yn unol â'r mynegai prisiau defnyddwyr, ac yn gofyn am gyngor trydydd parti o bryd i'w gilydd i sicrhau bod ein hamcangyfrifon yn dal yn briodol.
- Mae gwerth presennol cynllun pensiwn buddion diffiniedig y GMC yn dibynnu ar nifer o ffactorau sy'n cael eu pennu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio amrywiaeth o dybiaethau. Mae'r tybiaethau a ddefnyddir i bennu cost net incwm ar gyfer pensiynau yn cynnwys y gyfradd ddisgownt. Bydd unrhyw newidiadau yn y tybiaethau hyn, a ddatgelir yn nodyn 16, yn effeithio ar swm cario ymlaen ased neu rwymedigaeth y pensiwn. Mae prisiad FRS 102 yn seiliedig ar asesiad actiwaraidd llawn o rwymedigaethau'r cynllun ar 31 Rhagfyr 2024.

Asedau sefydlog diriaethol

Mae asedau sefydlog diriaethol yn cael eu datgan ar sail cost, yn net o ddibrisiant ac unrhyw ddarpariaeth ar gyfer amhariad. Dim ond os yw cost yr ased neu'r grŵp o asedau a gaffaelwyd yn fwy na £5,000 y bydd gwariant yn cael ei gyfalafu.

Asedau sefydlog anniriaethol

Intangible fixed assets comprise computer software. Mae asedau sefydlog anniriaethol yn cynnwys meddalwedd gyfrifiadurol. Maent yn cael eu datgan ar sail cost, yn net o amorteiddiad ac unrhyw ddarpariaeth ar gyfer amhariad. Dim ond os yw cost yr ased neu'r grŵp o asedau a gaffaelwyd yn fwy na £5,000 y bydd gwariant yn cael ei gyfalafu.

Dibrisiant

Darperir dibrisiant er mwyn dileu cost, llai'r amcangyfrif o werth gweddilliol, yr asedau'n gyfartal dros eu hoed dybiedig.

Dyma'r oes ddefnyddiol a amcangyfrifir:

- adeiladau prydlesol a gwelliannau prydlesol - y lleiaf o bum mlynedd neu weddill cyfnod y brydles
- dodrefn, gosodiadau a ffitiadau swyddfa - y lleiaf o bum mlynedd neu weddill cyfnod y brydles
- offer technoleg gwybodaeth (TG) – tair blynedd
- asedau anniriaethol: (meddalwedd TG) – tair blynedd.
- offer swyddfa arall – tair blynedd ar gyfer eitemau sy'n ymwneud â TG a phum mlynedd ar gyfer pob eitem arall.

Adolygir cyfraddau dibrisiant yn rheolaidd gan gymharu gwir oes asedau â chyfraddau'r polisi cyfrifyddu.

Meddalwedd TG drwyddedig

Mae costau datblygu ar gyfer gweithredu systemau TG newydd yn cael eu cyfalafu a'u dibrisio dros y cyfnod lleiaf o dair blynedd neu oes ddefnyddiol yr ased. Mae costau trwyddedau'r flwyddyn gyntaf yn cael eu cyfalafu gan eu bod yn angenrheidiol er mwyn defnyddio'r ased; caiff costau trwyddedau'r flwyddyn ddilynol eu trin fel gwariant gweithredol.

Lesoedd gweithredol

Mae'r rhent sy'n daladwy o dan lesoedd gweithredol yn cael ei gynnwys yn y datganiad o weithgareddau ariannol ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

Offerynnau ariannol

Mae gan yr elusen asedau a rhwymedigaethau ariannol o fath sy'n gymwys fel offerynnau ariannol sylfaenol. Mae offerynnau ariannol sylfaenol yn cael eu cydnabod i ddechrau ar sail gwerth y trafodion ac yna'n cael eu mesur ar sail

cost wedi ei hamorteiddio. Mae asedau ariannol a ddelir ar gost wedi ei hamorteiddio yn cynnwys arian parod a balansau banc, adneuron tymor byr (datganiad llif arian), buddsoddiadau a ddelir mewn adneuron arian parod (nodyn 8) ynghyd â dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill (nodyn 9). Mae rhwymedigaethau ariannol a ddelir ar gost wedi ei amorteiddio yn cynnwys credydwyr masnachol a chredydwyr eraill, treth a chredydwyr a chroniadau nawdd cymdeithasol (nodyn 10).

Buddsoddiadau

Mae ein polisi buddsoddi yn rhannu ein cronfeydd yn bedwar categori: y rheini sy'n ofynnol fel cyfalaf gweithio ar gyfer gweithrediad arferol y busnes o ddydd i ddydd, y rheini rydym yn buddsoddi o dan reolaeth, y rhai y gallwn benderfynu eu buddsoddi mewn is-gwmni masnachu, a'r balans arian sy'n weddill, sy'n amrywio yn ystod y flwyddyn. Dangosir cronfeydd a ddelir fel arian parod ar gyfer gweithrediad arferol y busnes o ddydd i ddydd ar fantolen y GMC o fewn asedau cyfredol, tra dangosir cronfeydd a ddelir ar gyfer y tymor hwy fel buddsoddiadau.

Pensiynau

Mae gennym gynllun pensiwn buddion diffiniedig ar gyfer gweithwyr parhaol. Cafodd y cynllun ei gau i aelodau newydd ar 30 Mehefin 2013, ac ar gyfer croniadau yn y dyfodol i aelodau presennol ar 31 Mawrth 2018, a'i ddisodli gan gynllun cyfraniadau diffiniedig.

Mae gwarged neu ddiffyg y cynllun buddion diffiniedig yn cael ei gydnabod ar y fantolen. Mae newidiadau i asedau a rhwymedigaethau'r cynllun yn cael eu datgelu a'u dyrannu fel a ganlyn:

- Mae taliadau sy'n ymwneud â chostau gwasanaeth cyfredol neu flaenorol, ac enillion a cholledion ar setliadau a chwtogiadau, yn cael eu cynnwys o fewn costau staff a'u priodoli i'r datganiad o weithgareddau ariannol.
- Dangosir llog ar yr ased/rhwymedigaeth buddion diffiniedig net fel swm net o gostau cyllid eraill neu fel adnodd sy'n dod i mewn ochr yn ochr ag incwm a llog buddsoddi. Caiff enillion a cholledion actiwaraid eu cydnabod ar unwaith mewn enillion a cholledion cydnabyddedig eraill ar fuddsoddiadau.
- Mae asedau, rhwymedigaethau a symudiadau gwarged neu ddiffyg y cynllun yn cael eu cyfrifo gan actiwariaid annibynnol cymwysedig fel diweddariad i'r prisiad actiwaraid llawn diweddaraf. Dangosir manylion asedau, rhwymedigaethau a phrif dybiaethau'r cynllun buddion diffiniedig yn y nodiadau i'r cyfrifon.
- Sefydlwyd ein cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig ar 1 Gorffennaf 2013. Codir cyfraniadau i'r cynllun ar y datganiad gweithgareddau ariannol yn y flwyddyn maent yn daladwy i'r cynllun.

Cronfeydd a chronfeydd wrth gefn

Mae'r rhan fwyaf o'n cronfeydd yn anghyfyngedig, ac felly gellir eu gwario yn ôl disgrisiwn yr ymddiriedolwyr ar gyfer gwireddu ein nodau elusennol. Bydd cronfeydd cyfyngedig yn cael eu gwario yn unol â phwrrpas y cyllid.

Taliadau terfynu

Cyfrifir am daliadau terfynu cyn gynted ag y bydd y sefydliad yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth i wneud y taliad.

2. Incwm o weithgareddau elusennol

	Cronfeydd anghyfyngedig £'000	Cyfanswm 2025 £'000	Fel y'i hailddatganwyd Cronfeydd anghyfyngedig £'000	Cyfanswm 2024 £'000
Cofrestriad				
Ffioedd cadw blynyddol	132,273	132,273	121,941	121,941
Ffioedd cofrestru	7,540	7,540	6,904	6,904
Ffioedd cofrestru dros dro	273	273	267	267
Ffioedd PLAB	19,286	19,286	25,335	25,335
Ffioedd eraill	114	114	102	102
	159,486	159,486	154,549	154,549
Cofrestru meddygon teulu ac arbenigol				
Ffioedd Tystysgrifau Cwblhau Hyfforddiant	4,170	4,170	3,918	3,918
Ffioedd Tystysgrif Cymhwysedd ar gyfer Cofrestriad Arbenigol/Tystysgrif Cymhwysedd ar gyfer Cofrestriad Meddygon Teulu	2,319	2,319	2,025	2,025
Ffioedd eraill	52	52	54	54
	6,541	6,541	5,997	5,997
Ailddilysu				
Ffurflen ail-ddilysu flynyddol	236	236	168	168
Asesiad ailddilysu	33	33	57	57
	269	269	225	225

